

LLYWYDD CENEDLAETHOL MERCHED Y WAWR



Jill Lewis



Yn ddiweddar cynhaliwyd seremoni i Urddo Jill Lewis yn Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr. Gan dorri ar y traddodiad arferol o Urddo ar lwyfan y brifwyl ac oherwydd cyfyngiadau Covid, fe gynhaliwyd y seremoni ger Cofeb Waldo yn Sir Benfro ar fore sych a gwyntog. Croesawyd pawb gan Ann Howells y Llywydd Rhanbarth a darllenwyd y gerdd Preseli gan Ann Davies Llywydd Cangen Mynachlogddu. Fe ffilmwyd y seremoni gan Bethan Picton Davies a diolchwn i'r Eisteddfod Genedlaethol am gynnwys yr Urddo a cyfweiliad gan y dair Llywydd ar ei rhaglen AmGen o weithgareddau o babell y Cymdeithasau.

Roedd yn braf cael cwmni aelodau cangen Jill sef cangen Mynachlogddu yno i weld y seremoni ynghyd â chriw bychan o deulu agos, swyddogion rhanbarthol a chenedlaethol. Diolch i chwaer Jill sef Nia a Jamie a'r teulu am ddarparu lluniaeth arbennig yn ei gardd yn dilyn y seremoni. Trosglwyddodd Meirwen Lloyd o Arfon y Llywyddiaeth i Jill ac yna fe wnaeth Jill drosglwyddo rôl yr Is-lywydd i Geunor Roberts o gangen Dinas Mawddwy yn rhanbarth Meirionnydd. Hefyd yn ystod y bore trosglwyddwyd plat i Anne Ellis yr ysgrifenyddes Genedlaethol, Nesta Rees y Trysorydd Cenedlaethol a Meirwen Lloyd y Llywydd.

Cafwyd anerchiad hwyliog gan Jill a diolchodd i bawb, ac yn enwedig i'w theulu a chyd aelodau am fynychu'r seremoni, a mynegodd ei diolch a'i dyled i Meirwen am ei chefnogaeth a'i chyfeillgarwch dros y dair mlynedd. Fe wnaeth Meirwen arwain y mudiad gydag urddas, ymroddiad a brwdfrydedd am flwyddyn ychwanegol annisgwyl, a honno yr un mwyaf heriol eto yn hanes Merched y Wawr mae'n siwr.

Bydd Jill yn cymryd at yr awennau ym mis Medi ac mae'n edrych ymlaen yn fawr iawn am gyfnod cyffrous ar ôl cyfnod anodd y pandemig. Mae'n hyderus y bydd yr aelodau yn barod i ail gychwyn cyfarfod wyneb yn wyneb, ac yn mawr obeithio y caiff y cyfle i deithio ar hyd a lled Cymru i gyfarfod a'r aelodau a dod i'w adnabod. Mae hefyd am ddiolch yn fawr iawn i bawb, yn aelodau unigol, canghennau a Chlybiau Gwawr am eu cefnogaeth a'r holl nege-seuon a chyfarhion ers yr urddo.



Jill Lewis wedi'r seremoni Urddo.

Dymuniadau gorau i Jill yn ystod ei Llywyddiaeth wrth holl ddarllenwyr Y Cardi Bach.



Jill a Meirwen Lloyd, cyn-lywydd



Jill gyda'r teulu

Y CARDI BACH

Golygydd:	Rhoswen Llewellyn 01994 448283
Cadeirydd a Dosbarthwr	Eurfyl Lewis 01994 419495
Ysgrifenyddes:	Beti Wyn James 01994 230966
Trysorydd, Ffotograffydd, Dosbarthwr drwy'r post a Hysbysebion:	Roy Llewellyn 01994 448283
Trysorydd y Clwb '200':	Rhian White 01994 231338
Cysodwyr:	Wyn a Meirwen Evans 01994 448447
Ffotograffydd Cynorthwyol:	Mel Jenkins 01994 240411
Cystadleuaeth	John Arfon Jones 01994 240536
Cornel y Dysgwyr:	Albie Abbott 01239 831641
Tudalen y Plant:	Llinos Mair Thomas
Llewyrrch i'm Llwybr:	
Cornel Coginio:	Winnie James 01239 831754
Cornel Llên:	Nansi Evans 01994 448392 Rhoswen Llewellyn 01994 448283
Cornel Garddio:	John Davies 01994 240059


Newyddion, Lluniau, Erthyglau
a Hysbysebion i'w hanfon erbyn
10fed o bob mis, drwy e-bost os
yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin,
Cwmfelin Mynach, Hendygywyn-ar-
Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol
o angenrheidrwydd yn
cytuno ag unrhyw farn a
gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan: Gwasg Aeron Cyf.
Aberaeron. 01545 571115

CYMRAG



Colofn Mis Awst

Rhyddid

Mae rhyddid yn air pwysig, yn air sy'n medru codi calonau, yn awgrymu proses ddibendraw. Os y gwnewch chi lacio'r tennyn a gadael ci yn rhydd, fe allai redeg i bellafion os nad yw'n or hoff o'i berchennog.

Mae e'n air poblogiad yn ein caneuon, o *Bum Diwrnod O Ryddid*, i *Fod Yn Rhydd* a *Thorri'n Rhydd*, ac wrth gwrs y geiriau yn ein hanthem, *Tros ryddid collasant eu gwaed*.

Mae *Rhyddid* yn medru golygu *Annibyniaeth*, a dyna sy'n aros ar garreg y drws wrth groesi trothwy'r 18 oed. Do, fe gyrhaeddodd ein cyw melyn olaf ei 18 oed ar y 7fed o Awst. Mae e'n oedolyn bellach, a'r pen-blwydd mawr yn nodi'r garreg filltir bwysig honno wrth iddo bendroni sut yn union i ddathlu, yn yr oes ddigynsail hon.

Wrth gwrs, roedd y 7fed o Awst 2021 yn ddiwrnod o ryddid i bawb arall hefyd, wrth i drwch o gyfyngiadau Covid-19 ddiflannu. Daeth y dydd yr oeddem wedi crefu amdano ers mis Mawrth 2020. Ond nid diwrnod oedd hwn lle gwelwyd pawb yn rhuthro allan dros garreg eu drws, yn cofleidio eu gilydd, yn dawnsio ar y byrddau mewn partion stryd, ac yn llenwi pob dyddiad yn y calendr ar gyfer amrywiol bwyllgorau a chyfarfodydd. Er ei fod yn ddiwrnod arwyddocaol, mae rhyddid yn glamp o air, ac mae'n anodd diffinio ei ystyr ar hyn o bryd wrth i ni geisio dygymod ag effaith y pandemig a lwyddodd i'n parhysu am gyfnodau hir.

Do, fe gafodd y mab fynd allan i ddathlu gyda'i ffrindiau, a do, fe dorwyd y gacen pen-blwydd gyda theulu o'i amgylch. Ac rydym yn cyfri'n bendithion fod hynny wedi bod yn bosibl. Wrth gwrs, ar y diwrnod pan gafodd ei eni adeg Eisteddfod Meifod 2003, fe ges i bwl o banig y byddai'n dathlu ei 18fed mewn pabell ym Maes B. Bymtheng mlynedd yn ddiweddarach, ac roedd hi'n ymddanogs mai ym Mhen Llyn y byddai'n dathlu'r pen-blwydd mawr, yna roedd hi'n ymddangos y byddai'r dathliad yn Nhregaron. Ond mae'r pandemig yma wedi newid llwybr sawl taith i unigolion ar hyd a lled y byd.

Ac ydy, mae *rhyddid* yn glamp o air, ac am y tro cyntaf erioed, rydw i'n cwestiynu a ydy rhyddid yn fêl i gyd. Ry'n ni'n bobl gwahanol ers y pandemig. Mae ein disgwyliadau, ein gobeithion a'n blaenoriaethau wedi newid. A dyw cael rhyddid i wireddu'n breuddwydion ddim mor apelgar ag yr oedd e.

Gam wrth gam, fe ddown ni o hyd i normalrwydd newydd, a rhyddid newydd. Ond does dim brys, a does dim pwysau ar bawb i groesi'r llinell derfyn yr un pryd. Mi fyddwn ni i gyd yn gwbwl reddfod yn cadw pellter rhag eraill am gryn gyfnod eto, mi fydd ein mygydau wrth law yn ein pocedi a'n bagiau, a bydd sawl un fel fi yn dal i orfod ei heglu hi nol adre i'r tŷ, ar ol cofio bod y mwngwd ar y silff ben tan!

Felly croeso i'n rhyddid newydd. Mae'r nerfusrwydd i'w deimlo ym mhob twll a chornel o'n cymunedau, does dim modd gwadu hynny. Ond mae gennym ni ryddid bellach i gael clonc, i roi'r byd yn ei le, wyneb yn wyneb. A chofiwch, be bynnag oedd gwendiadau cyfarfodydd Zoom, roedd gennym ni i gyd y rhyddid i bwyllgora a chynnal cyfarfodydd yn ein pyjamas pe baem yn dymuno hynny! Fel rydw i wedi ei nodi eisoes, mae *Rhyddid* yn glamp o air, a'i ystyr yn ddibendraw !

Colofn Mis Medi

Wel, byr iawn fu'r cyfnod o ryddid ar ein haelwyd ni ! Bythefnos wedi Awst y 7fed, fe gaeodd y drws yn glep unwaith yn rhagor.

Ar fore'r 22ain o Awst, fe gymres i brawf Covid. Roedd e'n negyddol. Ro'n i wedi bod mewn cyswllt ag achos positif, ond gan mod i wedi fy mrechu

GOHEBWYR LLEOL

ALMA:	Margaret Evans 01994 230761
BANCYFELIN:	Merle Jones 01267 211300 eleanormerle@icloud.com
BLAENWAUN:	Tegwen James 01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun)	Meinir Eynon 01437 563540 meiniireynon@gmail.com
CEFNYPANT:	Valerie Davies 01994 448475 vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN:	Lynys Davies 01437 563319 mam_dadbox@yahoo.co.uk
CWMBACH:	Jane Evans 01994 448790 teulujames@btinternet.com
CWM MILES:	Meinir Eynon 01437 563540
CWMFELIN	Nansi Evans 01994 448392
MYNACH:	Angharad Booth Taylor 01994 419221 angharad.boothtaylor@btinternet.com
EFAILWEN:	
GELLIWEN:	Peter Crowdie 01994 230033 peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN:	Mel Jenkins 01994 240411 j.jenkins736@btinternet.com
	Y Parch. Guto Llywelyn 01269 851655 gutollywelyn@hotmail.com
HENLLAN - FALLTEG:	Sian Jackson 01994 240981 jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN:	Meinir Eynon 01437 563540
LLANBOIDY:	Norah Heseltine 01994 448241 sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO:	Delyth Roblin 07882 639867 delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN:	Jill Lewis 01994 419495 jill.llest@gmail.com
LLANGYNIN:	Susan Phillips 01994 231066 siwperiw@googlegmail.com
MEIDRIM:	Patsy Lewis 01994 230369 talarwen@hotmail.com
PENYBONT:	Una Williams 01994 484372
PWLLTRAP:	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID:	Doreen Adams 01994 240581
RHYDWILYM:	Eilir Davies 01994 419649 eilirtrhos@btinternet.com
SAN CLER:	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
TRELECH:	Alyson Harries 01994 484359 alysonharries@btconnect.com

ddwywaith, a'r ail bigiad ers 10 wythnos, doedd dim angen i fi hunanynysu.

Yn gam neu'n gymwys, fe es i gael cinio gyda ffrind nad oeddwn i wedi ei gweld ers dros 2 flynedd. Nes i gychwyn am adre am 18.30. Ac ro'n i'n teimlo'n hollol iawn wrth gamu ar y tren yn Abertawe. Fe wnes i eistedd gyferbyn â dyn nad oedd yn 'credu mewn gwisgo mygydau.' Fe ddywedodd e hynny wrthai deirgwaith. Nid fe oedd yr unig un heb fwgwd ar y tren a oedd yn llawn i'r ymylon.

Rhywle rhwng Abertawe a Llanelli fe ddechreuais i deimlo symptomau Covid. Ffarweliodd y gŵr gyferbyn a nodi eto nad oedd e'n credu mewn gwisgo mygydau a'i fod e'n ymddiheuro os oedd e wedi 'mhechu i.

Yr hyn nad ydy e'n ei wybod hyd heddi', ydy mod i siŵr braidd yn hynod o heintus ar y pwynt hwnnw. Ond ro'n i'n gwisgo mwgwd, yr unig amddiffynfa oedd gen i yn y sefyllfa gyfyng honno, a doeddwn i'n sicr ddim yn dymuno rhoi Covid iddo fe nac unrhywun arall ar y tren.

Yn ei hanfod, dyw Covid ddim wedi newid dros y flwyddyn a hanner ddiwetha' 'ma. Mae e'n dal i fod yn slei, ac mae e'n dal i daro yn frawychus o sydyn. Gadewais Abertawe yn teimlo'n hollol iawn. Ro'n i'n pasio Glan-y-Fferi 38 munud yn ddiweddarach yn teimlo'n hollol sal. Am 11 y bore, fe ges i brawf negyddol. Am 8 y nos, roedd prawf arall yn bositif.

Gall unrhywun ohonom fod yn eistedd drws nesa i rywun â Covid yn hollol ddarwybod. Dyw e ddim yn amlwg, a weithie dyw'r rhai sy'n ei gario fawr callach chwaith eu bod yn heintus. Ac mae 'na eraill fel fi a oedd methu dianc ar unwaith i ystafell i hunanynysu.

Ma' gwisgo mwgwd mor rhwydd. Dyw e ddim yn amharu ar ryddid na hawliau unigolion fel roedd y cyfaill ar y tren yn ei awgrymu wrtha i. Yn hytrach, mi olygodd mod i wedi gwneud popeth o fewn fy ngallu ar y foment honno i geisio ei arbed e rhag dal Covid. Ond dyw e ddim yn gwybod hynny. A fydd e fyth yn gwybod hynny.

Nid fi yw'r gynta na'r ola i gael fy nal mewn man cyhoeddus yn heintus. Does neb ar fai, a does dim modd i ni osgoi hynny, wrth i'r cyfyngiadau lacio, ac wrth i ni fwynhau mwy o ryddid.

Dyw mwgwd ddim yn ymwneud â chred. Ffwlbri yw "peidio credu mewn gwisgo mwgwd" mewn man cyhoeddus dan do. Dwi'n cydymdeimlo â'r rhai sy'n methu am resymau meddygol. Ond i'r rhai sy'n medru, synnwyr cyffredin yw e. A dwi'n dweud hynny fel rhywun sy'n dal i aros i ddau o fy mhum synnwyr i ddychwelyd! Ond nid colli blas ac arogl yw'r symptomau gwaethaf. Mae e'n feirws cwblw ddi-drugaredd - hollol afiach.

Ond rydw i'n gwella, ac yn ddiolchgar mod i wedi llwyddo i wneud hynny adref. Ond mae'r wythnosau diwethaf wedi profi i mi nad nawr yw'r amser i laesu dwylo. Mae mygydau yn mygu Covid.

Iola Wyn, San Cler

Telerau hysbysebu yn Y Cardi Bach

	D/G	LLIW
Tudalen llawn (A4)	£60	£100
Hanner Tudalen	£30	£50
Cwarter Tudalen	£15	£25
Sgwar 6cm x 6cm	£5	£10

Blodau

Ar gyfer achlysuron arbennig

Meryl James,
Dyffryn Taf,
Pengawse,
Hendygywn ar Daf.
SA34 ORE.

Ffôn: 01994 240 350

Symudol: 07977 553796

Ebost: meryljames534@btinternet.com



CYSTADLEUAETH *gan John Arfon*

Diolch fod pethau'n dechrau gwella a dod i drefn ar ôl y misoedd o'r pandemig yr ydym wedi ceisio ein gorau i fyw trwyddo. Er hynny, fe fydd yn rhaid inni fod yn ofalus iawn o hyd a chadw'n saff yn enwedig y gaeaf hyn, gan obeithio y bydd haul unwaith eto ar fryn erbyn Mai nesaf. Hoffwn gydymdeimlo yn fawr ac unrhyw deulu sydd wedi colli anwyliaid yn ysod y misoedd diwethaf hyn.

Cafwyd nifer dda o atebion cywir i gystadlaethau Mai/Mehefin. Dyma'r atebion i'r rhan gyntaf, sef llyfeydd yn dechrau gyda **Aber**:

1. Aberystwyth, 2. Aberdaron,
3. Aberfan, 4. Abergwili, 5. Abergwaun, 6. Aberteifi, 7. Aberpennar,
8. Aberhonddu, 9. Aberporth,
10. Aberglaslyn, 11. Aberffraw,
12. Abercynon, 13. Aberdyfi,
14. Aberdâr, 15. Abertawe.

Yn yr ail gystadleuaeth sef y Chwilair roedd yn rhai ichwi fod yn ofalus gan fod Ananias yn ymddangos ddwywaith ond nid oedd un ohonynt yn cyfrif oherwydd fod enw arall yn rhan ohono. Wedi croesi y geiriau i gyd allan, dylai pedair llythyren fod ar ôl a IESU oedd yr ateb oedd ei eisiau. Daeth 18 o ymgeision i law a phob un ohonynt yn hollol gywir.

Y cyntaf allan o'r het y tro hyn ac sy'n ennill y wobr o £5 yw Mrs Nesta Howells, 20 Bancyfelin, Caerfyrddin gyda'r ail wobr o lyfr yn mynd i Joyce Davies, Annedd, Hermon, Y Glog gyda'n llongyfarchiadau mawr. Diolch hefyd i'r isod am eu hatebion cywir: Phyllis Hughes, Eric Hughes, Huw Davies, Nesta Rees, Rita James, Pwlltrap; Olwen Gibbon, Heol Llysonnen; Dorothy Williams, Efailwen; Tegwen James, Jane Evans Blaenwaun; Peter Crowdie, San Cler; Meryl Jones, Talog; Havina Jones, John Lewis, Meidrim; June Walters, Tre Ioan; Rhian Wyn Williams, Bryn Iwan; a Gwlithyn Jones, Dryslwyn.

Dyna atebion y cwrosw a'r chwilrifau o rifyn Mis Mai/Mehefin:

O	O	X	X	O	X
X	X	O	O	X	O
X	O	X	O	X	O
O	X	O	X	O	X
O	O	X	O	X	X
X	X	O	X	O	O

3	2	1	6	4	9	7	8	5
4	5	7	8	3	2	1	6	9
8	9	6	7	1	5	2	3	4
5	8	4	9	7	1	3	2	6
6	3	9	5	2	8	4	7	1
7	1	2	4	6	3	9	5	8
1	6	8	2	9	7	5	4	3
9	7	5	3	8	4	6	1	2
2	4	3	1	5	6	8	9	7

11	5	10	2	1	4	6	12	8	7	3	9
1	3	7	9	11	5	2	8	6	12	10	4
6	12	8	4	7	9	3	10	11	5	1	2
2	9	11	5	4	3	10	1	12	6	7	8
8	1	12	6	5	11	7	2	9	3	4	10
3	7	4	10	6	12	8	9	5	1	2	11
12	8	2	7	9	10	5	3	4	11	6	1
5	6	1	3	8	7	4	11	2	10	9	12
4	10	9	11	12	2	1	6	3	8	5	7
9	2	6	8	3	1	11	7	10	4	12	5
7	4	3	12	10	8	9	5	1	2	11	6
10	11	5	1	2	6	12	4	7	9	8	3

Dyma cwrosw a chwilrif i'ch diddori y mis yma

O					O
		O		O	
X	X				
			X		X
O					
		O			X

6			2		7	
9		7	6	5	2	1
		5	7	8	6	
	8	2			6	
3			4	8	7	2
5				6	4	9
		4		3	2	
8	5			1	6	7
			4		3	5

Yn anffortunos roedd un camgymeriad yn y Rhifair yng nghystadleuaeth y mis diwethaf. Dylai'r pumed o'r diwedd ar draws fod yn 19, 2, 10 (nid 9), 5, 25 i roi'r ateb oeddwn eisiau yno. Rwy'n siwr bod y mwyafrif ohonoch wedi sylweddoli hyn yn barod. Unwaith eto ymddiheiriad am y gwall.

Mae dwy ran i gystadleuaeth y mis hwn. Er mai dau groesair fydd eisiau ichwi ei datrys, maent yn wahanol i'w gilydd.

a) Dyma'r croesair cyntaf

1		2		3			4	5
	6				7			
			8		9	10		
11								
12			13			14	15	
	16			17				18
19								
	20							
		21						

Cymerir ch, dd, ff, ng ac yn y blaen fel un llythyren

Ar Draws

1. Canol neu graidd y ddaear (7)
6. Iaith yr Hen Destament (7)
9. Trawiad llygad (4)
11. Gwlad ac iaith Archimedes (5)
12. Hylif o berfeddion ofergoeliaeth (3)
13. Metel gwerthfawr. (3)
14. Dymchwelwyd un Berlin yn 1989 (3)
17. Bodloni neu ddigoni (5)
19. Dychryn yng ngholofnau'r papur bro (3)
20. Cyfnodau (7)
21. Talent neu allu cynhenid arbennig (7)

I Lawr

1. Codir hon er coffad (9)
2. Un yn ei lawn faint (7)
3. Gwneud cwrw (5)
4. Ymroddiad neu ynni (4)
5. Ci Nel yn cael lloches (5)
6. Yn dilyn hip ddwywaith i longyfarch (4)
7. Yr awen yn hedfan o gwmpas (6)
8. Call neu ystyriol (6)
10. Na, Idwal sy'n creu uniondeb (7)
15. Rhan fawr o amser (3)
16. Ffrwyth gan Famgu Smith (4)
17. Lleud y byd (4)
18. Ymadrodd neu leferydd (4)

b) Dyma'r ail.

Mae'r holl atebion i'r cliwiau yn dilyn trefn y wyddor Gymraeg ac mae'r mwyfrif ohonynt yn eithaf rhwydd, ond y gamp yw fod yn rhaid ichwi benderfynu pa le i'w gosod yn y grid er mwyn cwblhau y croesair yn gywir.

Cymerir ch, dd, ff, ng ac yn y blaen fel un llythyren

1	2		3	4		5		6	7
8			9					10	
11		12				13	14		
15			16						
						17		18	
19		20							
						21		22	23
24	25		26				27		
28			29			30		31	
32					33				

Dyma'r cliwiau

- Cysylltiad a ddaw o Alltyblaca (2)
- Mesuriadau tir (5)
- Adnabod (6)
- Ein Tad ni oll ! (3)
- Heb fod i mewn (4)
- Deffra yn dychwelyd i gael côl (5)
- Y gronyn lleiaf o fater (4)
- Rhan gaedig o dir (3)
- Ffrind (6)
- Math o goed caled (4)
- Aderyn diflanedig sy'n ddau ateb cadarnhaol (4)
- Ceffyl ifanc (4)
- Eiddo ef i ddechrau (2)
- Chafodd neb y dewis o gael hwn (3)
- Beiddgar neu hyderus (4)
- Wedi'r Frenhines Elisabeth (2)
- Unwaith yn rhagor (3)
- Ebychiad o enau un dewr (2)
- Cweryl neu ffrwgwd (4)
- Bendith Duw (4)
- Dryll o Begwn y De (3)
- Aderyn ffarm (3)
- Ateb cadarnhaol yn Fietnam (2)
- Creadur gwirion o gyrion Conwy (4)
- Ffortunus (5)
- Ffwrwm (5)

- Nid y nhw ddaeth o Lanidloes (2)
- Mam Dewi Sant (3)
- Anifail sydd yn poenydio (3)
- I'r oen sy'n rhynnu dyma gaiff heb wres (5)
- Colofn sy'n rhoi arswyd (3)
- Nodyn o'r Sol-ffa (2)
- Man Gemau Olympaidd 2016 (3)
- Rhew yn troi'n ddwr (4)
- Adeilad i ddechrau tylwyth (2)
- Cân i unigolyn (5)
- Ordeinio a chyflwyno anrhydedd (4)
- Trawiad llygad (4)

Anfonwch eich atebion gyda'ch enw, cyfeiriad a'ch rhif ffôn erbyn Tachwedd y 5 ed 2021 i John Arfon Jones, Cilhaul, Heol y Gogledd, Hen Dŷ Gwyn ar Daf, SA34 0AX os gwelwch yn dda. Cofiwch fod yn rhaid ichwi fod yn aelod o'r Clwb 200 os am y siawns o ennill gwobr, felly gwnnewch yn siwr eich bod wedi ymaelodi am eleni.

Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarlennwyr,

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Hyderaf eich bod hefyd wedi mwynhau'r tywydd braf yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Diolch i'r canlynol am ymaelodi ers rhifyn Gorffennaf:-

Mair Collinge, 8 Parc Ostrey, San Clêr.
Dorian a Christine Anthony, Coedfryn, San Clêr.
Elfyn Evans, Ffoshelig, Cwmbach.
Norah Heseltine, Spencer House, Llanboidy.
John Arfon Jones, Cilhaul, Hen Dŷ Gwyn.
Beryl Griffiths, D/O John Arfon Jones, Cilhaul.
David Evans, 13 Glan y Môr, Glan Conwy.
Iorwerth a Rhiannon Davies, Pencerrig, Efailwen.
Eleri Jones, Glenview, Llanglydwen.
John a Morina Adams-Lewis, Aberteifi.
Brynmor Thomas, Brynderwen, Clunderwen.
Angela Thomas, Brynderwen, Clunderwen.
Dan Scannell, Rose Hill, Llanglydwen.
Philippa Scannell, Rose Hill, Llanglydwen.
Esme Williams, Rhyddcoed Bach, Glandwr.

Eirian a Hilary Edwards, 23, Maes y Frenni, Crymch.
Jessica a Zac Edwards, 23, Maes y Frenni, Crymch.
Merle Davies, 59, Maes yr Yrfa, Crymch.
Keith a Mair Davies, Brynderi, Glandwr.

Llongyfarchiadau i enillwyr fis Gorffennaf:-

541 Dr Rhian Phillips, 20 Finchley Court, Llundain - £20
322 Leia Jenkins, D/O Glantaf House, San Cler - £10

Braf byddai croesawu rhagor o aelodau i'r Clwb 200, felly beth amdani? Danfonwch siec am £10 i fi gyda'ch enw a chyfeiriad, neu allwch dalu drwy system BACS. Rhif y cyfrif yw 91020765 a'r côd didoli yw 40-46-27. Lle mae e'n gofyn am 'reference' rhwng eich enw chi fan yna.

Diolch i chi am eich cefnogaeth a chadwch yn ddiogel,
Rhian

Cyfraniadau

Mrs Audrey Davies, Brynstop, Crymch	£20
Roy a Rhoswen Llewellyn, Bro Gronw	£20
Mrs Heulwen Morris, Sŵn-y-nant, Glandy Cross	£10
Allen a Heulwen Lewis, Cefnypant House	£10
Peter a Delyth Dent, Maencoch, Llanboidy	£20
Owen a Diane, Heol-y-Gaer, Clunderwen	£20

Diolch yn fawr

Ymddiheuriadau i Heulwen Morris ac Eilir Davies am y camgymeriad yng nghyfraniadau mis Gorffennaf. Cafodd swm o £10 ei gynnwys dan enw Eilir ac nid o dan enw Heulwen fel y dylai fod. W.E.

Pwysig

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol Y Cardi Bach prynhawn Sul, Hydref 24ain am 4 o'r gloch drwy gyfrwng Zoom. Mae'n gyfarfod pwysig a gofynnir yn garedig am bresenoldeb gohebwyr ac unrhyw un a diddordeb yn nyfodol y papur. Bydd angen gwirfoddolwyr i helpu dosbarthu a chasglu hysbysebion Nadolig.

Gweler isod y linc ar gyfer ymuno:

<https://us02web.zoom.us/j/81421886336?pwd=WDluRFU2cTVjTXZYdEZkd3ZZWjllZz09>

ID y cyfarfod: 814 2188 6336

Côd pasio: 241021

WYN DAVIES a'i FRODYR

ADEILADWYR

Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf

Ffôn: 01437 563300



IFAN DAVIES

Saer Coed



Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA

07875 540469

W. J. KENNETH DAVIES

ei Feibion a'i Ferch

SEIRI COED

a

THREFNWYR ANGLADDAU

Blaenwern, Clunderwen

Ffôn: 01437 563319




LLEWYRCH I'M LLWYBR

Mae llawer o sôn am wynt yn y Beibl "Mae'r gwynt yn chwythu lle y myn ac yr ydych yn clywed ei sŵn, ond ni wyddoch o ble y mae'n dod nac i ble y mae'n mynd."

Mae wedi bod yn stormydd ar hyd a lled y byd a phryder am newid hinsawdd yn cael sylw byd-eang. Wedi amser maith o fod yn gaeth i Covid-19, mae gobaith bod y capeli (heblaw am fudiadau eraill) yn paratoi i ail-agor. Wedi bod ar gau cyhyd, rhaid glanhau yr adeiladau a'i gosod mewn trefn. Gellir cymharu hyn gyda bywyd pawb ohonom. Mae eisiau tri peth hanfodol ar dŷ ac adeilad – sef Glanhau, Goleuo a Chynesu. Lle diflas yw adeilad gwag. Ni oes cymeithas na bywyd yno, mae'n llawn o gysgodion tywyll. Heb fywyd a gofal, mae'r llwch yn disgyn dros bob peth ac yn y diwedd mae'n dadfeilio. Felly bywyd dyn – os na fydd pwrpas, ofer yw ceisio wynebu bob dydd gyda'i sialens, ac heb ffydd fod Duw yn ein cynnal, diobaith ydym ninnau.

Goleuo

Rhaid glanhau'r ffenestri i adael y golau ddod i mewn i'r ystafell. A'i goleuni neu tywyllwch sydd yn ein byd heddiw? A yw goleuni'r Efengyl wedi gorchfygu tywyllwch y byd?

Gwresogi


Os bydd yr adeilad yn lân ac yn olau mae'r awyrgylch yn wresog. Gwyddom i gyd beth yw effaith oerfel hir a phrofiadau'r pandemig sydd gyda ni o hyd. Ond pan ddaw gwres haul, cawn egni newydd i wneud yr hyn rydym wedi esgeuluso ers amser maith. Mae gwres yn peri tyfiant ac mae angen mwy o dyfiant ysbrydol ar hyn o bryd. Gweddiwn am wres yr Efengyl i ddod i fywyd yr Eglwys a'n bywydau bob dydd. Neges syml o gariad a chydymeimlad yw ein hateb i gyflwr ofnadwy y byd heddiw a ninnau'n gweld beth sy'n digwydd yn Afghanistan ar hyn o bryd.

Wedi cael yr adeilad yn lân, yn olau ac yn gynnes, mae'n fan delfrydol i dderbyn pobol i mewn i rannu o'r gymdeithas glos, gristnogol sy'n gwella ansawdd pobol.

'Deled Dy Deyrnas' yn ein byd yw'n gweddi. N.E

Cornel Llên

GALW AM DDIWYGIO CRISTNOGAETH ER MWYN EI WNEUD YN BERTHNASOL AR GYFER YR 21FED GANRIF



Mae llai a llai o Gymry yn datgan eu bod nhw'n grefyddol erbyn heddiw, a llai fyth yn mynychu addoldy yn rheolaidd. Gweler nifer fawr o gapeli yn cau ac yn troi'n adfeilion neu'n cael eu troi yn ail-gartrefi ledled y wlad. Oes yna le i Gristnogaeth yn ein bywydau yn yr 21ain ganrif?

Yr wythnos hon cyhoeddir cyfrol fach sydd yn ceisio ateb y cwestiwn yma, gan bwysleisio hefyd werthoedd Cristnogaeth a'r ffaith eu bod

mor angenrheidiol heddiw ag erioed. Mae *Pantycelyn a'n Picl Ni Heddiw* gan Cynog Dafis (Y Lolfa, £4.99) wedi'i ysgrifennu ar ffurf llythyr ac yn gobeithio ysgogi diddordeb o'r newydd yng ngwaith Williams Pantycelyn gan agor deialog gyda'r genhedlaeth ifanc ynghylch aildiffinio Cristnogaeth.

'Rhaid i ni sylweddoli bod angen mwy o ostyngeddwydd a diolchgarwch am yr hyn sydd ganddom ac mai rhodd yw popeth sy'n eiddo i ni. Trwy ras yr ydyn ni'n cael y fraint o gael byw. Gall Cristnogaeth feithrin y ffordd yma o weld y byd a byw ynddo. Mae angen i ni ail-ddysgu rhyfeddu at amrywioldeb natur, fel y gwnaeth Pantycelyn. Ac fel y gwnaeth Pantycelyn, bydd codi'n golygon tua'r nefoedd, tua phellterau'r cosmos, yn peri ni, yng ngeiriau un o'i gymrodyr, "synnu fyth ar synnu" wrth syllu ar yr eangderau a cheisio dirnad y dirgelwch eithaf sydd tu hwnt iddynt. Trwy ddefodau megis ymdawelu, gweddi, cydganu, rhannu bara a gwin y mae Cristnogaeth yn meithrin yr agwedd meddwl yna. Dichon y byddai addasu ac ychwanegu at y defodau cyfarwydd hynny yn pwysleisio pa mor berthnasol ydyn-nhw i anghenion ein cyfnod ni."

Mae *Pantycelyn a'n Picl Ni Heddiw* gan Cynog Dafis ar gael nawr (£4.99, Y Lolfa).

Adrian Llewellyn Groundworks Cyf



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concriid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio

Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN — CLUDIANT —



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR

☎ 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANEG HENDYGWYN AR DAF CYF. (WHITLAND ENGINEERING LTD.)

GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW

Uned B
Heol y Gorrlewin
Hendygywyn ar Daf

Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



MERCHED Y WAWR

Cangen Beca

Ar Fedi 9fed braf oedd cyfarfod unwaith yn rhagor yng Nghaffi Beca. Nid oeddem wedi cynnal cyfarfod ers cinio Gŵyl Dewi ym Mawrth 2020.

I ddechrau, gwnaeth Eryl George, ein Llywydd, estyn croeso i Hazel Thomas, Swyddog Datblygu Canghennau Ceredigion a Penfro.

Dweud tipyn o'i hanes wnaeth Hazel, a dyna beth oedd hanes diddorol. Pawb wedi mwynhau gwrando arni yn fawr iawn.

Wedyn, cario ymlaen gyda materion y gangen a'r mudiad. Trefnu i ymweld â'r Egin yng Nghaerfyrddin yn y mis nesa.

Enillydd y raffl misol oedd Mair Eynon. Mwynhau paned a chacen cyn troi tuag adre.

Cangen Gronw

Cynhaliwyd cyfarfod yn festri Ramoth nos Iau, Awst 26ain i drafod sut i ni yn symud ymlaen ar ôl bwlech o ddeunaw mis.

Croesawodd Meinir bawb. Hyfryd cael cwrdd eto. Diolchodd i Meirwen am drefnu ac am ddosbarthu'r Wawr dros y ddeunaw mis diwethaf. Diolchodd hefyd i ferched Ramoth am lanhau'r festri er mwyn i ni gael cwrdd yn ein cartref arferol.

Cydymdeimlwyd â Val ar golli ei brawd Wyn Owens ac estynnwyd llongyfarchiadau i Eirwen ar ddod yn famgu, merch fach arall i Siân.

Penderfynwyd mae trefnu o fis i fis yn hytrach na cheisio creu rhaglen am y flwyddyn byddai orau. Pawb yn awyddus i wahodd Jill Lewis, ein Llywydd Cenedlaethol newydd. Cytunwyd i ddanfôn cerdyn llongyfarch iddi a dymuno yn dda iddi yn ystod ei llywyddiaeth. Ein cyfarfod cyntaf fydd tē prynhawn ar 21ain Hydref am 3 o'r gloch yng Ngwesty Nantffynon gyda Jill Lewis yn wraig wadd. Enwau i'r ysgrifenyddes Eirwen Robinson erbyn dydd Gwener, Hydref 16eg os gwelwch yn dda.

Diolchodd Meinir i bawb am eu presenoldeb ac edrychwn ymlaen at gwrdd yn yr Hydref.



Mae digon o gynnyrch yn y gerddi eleni, felly dyma ddwy rysait:-

Catwad (Chutney) Ffa Dringo

Cynhwysion:

- 2 bwys (908gr) o ffa dringo
 - 1 ½ pwys (681gr) o winwns
 - 1 ½ llwy de o fflwr corn
 - 1 llwy de o fwstard sych
 - 1 ¼ peint o finegar
 - 1 ½ - 2 bwys o siwgwr brown.
- Halen.

DULL

Berwch y ffa dringo gyda halen.

Coginiwch y winwns mewn hanner y finegr.

Ychwanegwch y ffa a'r siwgwr gyda gweddill y finegr.

Berwch am tua 15 munud, nes ei fod yn tewhau.

Cymysgwch y 'cornflour' a'r mwstard gyda ychydig o finegr ac ychwanegwch at y gymysgedd.

Gadewch i oeri a'i rannu i botiau jam.

Catwad (Chutney) Betys

3 ½ pwys o fetys wedi ei berwi a'u torri yn ddarnau bach

1 ½ pwys o winwns wedi eu torri'n fân.

1 ¼ pwys o siwgwr brown golau

1 peint o finegar

Sudd un oren.

1 ½ pwys o afalau wedi eu glanhau a'u torri

2 llwy de o sbeis cymysg

Pinsiad o bupur du.

DULL

Berwch y cyfan, yna gadewch i fud-ferwi am 1½ awr nes ei fod wedi tewhau.

Rhowch mewn potiau wedi eu twymo.



DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau

Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid

Cysylltwch â Wyn Davies
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

FFERYLLFA EVANS
MEDICAL HALL • REBECCA HOUSE
San Clêr

01994 230444 01994 230456



eich canolfan gofal iechyd lleol
*Cyngor rhad ar gael gan
ein staff profiadol*


T. D. LADD
a'i GWMNI

SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen

Ffôn: 01437 563217

CORNEL Y DYSGWYR

Albie Abbot

Treiglo ar ol 'Pwy', 'Beth', 'Ble', 'Pam?', 'Pryd', 'Sut'

Gelwir 'pwy'? a 'beth' yn RHAGENWAU GOFYNNOL, gan eu bod nhw'n cymryd lle ENW, e.e.

Pwy (a) ganodd y gloch?

Canodd Phil y gloch (GODDRYCH)

Beth (a) ganodd Phil?

Canodd e'r gloch (GWRTHRYCH)

ADFERAU GOFYNNOL y gelwir 'pam?' 'pryd?' 'sut?' a 'ble?' Gan eu bod nhw'n ychwanegu gwybodaeth am y ferf, e.e.

BLE (y) canodd Phil y gloch?

Canodd Phil y gloch **tu fas i'r tŷ**.

PAM (y) canodd Phil y gloch

Canodd e'r gloch i **gael mynd i mewn**

PRYD (y) canodd Phil y gloch?

Canodd e'r gloch **am ddau o'r gloch**.

SUT (y) canodd Phil y gloch?

Canodd e'r gloch **yn uchel**.

Does dim rhaid ysgrifennu'r 'a' neu'r 'y' ond mae angen ysgrifennu'r treigladd cywir.

Ar lafar, clywir treigladd meddal ar ol pob un ohonyn nhw, .e.e

Pwy welodd y ffilm ar S4C neithiwr?

Beth ddigwyddodd nesa?

Ble gwrddaist ti â nhw

Pryd ddigwyddodd y ddamwain?

Sut (siwd) gest ti gymaint ?

Ond wrth ysgrifennu, dim ond ar ôl 'pwy' a 'beth' y dylid treiglo.

CYFIEITHWCH:-

1. Who came to the party ? :
2. How did that happen?
3. When will be able to see the new house?
4. What would you do
5. Did they say where they were going?.....
6. How was the weather there yesterday?.....
7. I wonder who left the parcel?
8. You'd be surprised (to hear) who I saw in the Black Lion last night.....

Preseli storage cyf.

Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.

Llanddewi Elfelfre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd



01834 860227



R. M. JONES

CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD

Bridge End House
Clunderwen

Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

Llyfrau Llafar Cymru)

"Siarad Cyfrolau" – "Speaking Volumes"

Teitl llyfr yw'r uchod i gyfrol ddwyieithog gan Rhian Evans. Mae Llyfrau Llafar Cymru newydd gyhoeddi'r gyfrol mewn lansiad yn Yr Egin, Caerfyrddin ddydd Iau Gorffennaf 29ain.

Mae'n gyfrol arbennig gan mai Rhian ei hun, fu'n gyfrifol gyda chefnogaeth eraill, i sefydlu yn gyntaf, Papur Llafar y Deillion Caerfyrddin a'r cylch yn 1976 ac ymhen tair blynedd, dechreuwyd Cynllun Casetiau Cymraeg. Nid yn unig bu Rhian yn un o sylfaenwyr y mentrau hyn, ond hi hefyd fu'n bennaf gyfrifol am eu datblygu. Mae wedi parhau yn allweddol ac yn asgwrn cefn datblygiad Llyfrau Llafar Cymru ers ei sefydlu'n swyddogol yn 2011 pan orffennodd Cynllun Casetiau Cymraeg.

Yn y gyfrol mae'n sôn am ei phrofiadau personol ac yna'n mynd rhagddi i roi hanes llawn am y datblygiadau a gwireddu ei breuddwyd i alluogi personau dall neu a nam golwg i wybod yr hyn sy'n digwydd yn eu hardal drwy wrando ar ddarllenwyr Papurau Bro o bob cwr o Gymru ac i fwynhau gwrando llyfrau a recordiwyd gan wirfoddolwyr yn stiwdio Tŷ Llafar, Caerfyrddin.

Medrwn ddweud bod y ddau gynllun rhyngddynt, wedi recordio dros 2,500 o lyfrau sain, y mwyafrif yn y Gymraeg a nifer hefyd yn Saesneg. Yn gyfredol, mae 450 yn derbyn ein "llyfrau" yn rheolaidd heb unrhyw dâl am y gwasanaeth, i "wrandawyr" ledled Cymru.

Roedd y gyfrol, a argraffwyd gan Wasg Garreg Gwalch, yn barod i'w chyhoeddi fis Mawrth 2020, ond oherwydd y pandemig, rhaid fu gohirio'r achlysur. Hyderwn na fydd hyn yn amharu ar eich mwynhad o ddarllen y llyfr.

Mae'r gyfrol ar werth drwy aelodau'n Pwyllgorau am £5. Ond gellir ei archebu drwy'r post am £7 yn cynnwys cludiant. Danfonwch am eich archeb i: Tŷ Llafar, Adeilad 23, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin SW31 3HB; neu ffonio'r Swyddfa: 01267 238225 neu trwy e-bost i: llyfraullafarcymru@outlook.com

Sulwyn Thomas (Cadeirydd)
Wynn Vittle (Ysgrifennydd)



Mudiad Meithrin yn dathlu 50 mlynedd o ddarparu addysg Gymraeg

Eleni, mae Mudiad Meithrin yn dathlu pen-blwydd arbennig wrth iddynt ddathlu 50 mlynedd ers ei sefydlu yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor, 1971. Er gwaethaf y cyfyngiadau sydd mewn grym yn sgil pandemig Covid-19, trefnwyd llu o weithgareddau er mwyn nodi'r achlysur arbennig hwn.

Lluniwyd logo Mudiad Meithrin newydd yn arbennig ar gyfer dathlu'r 50 sydd i'w weld uchod. Mae 50 o Gylchoedd Meithrin wedi derbyn capsawl amser i'w claddu a bydd 50 Cylch Meithrin arall yn derbyn coed afalau i'w plannu yn yr Hydref. Bydd placiau yn cael eu rhoi gyda rhain er mwyn nodi'r achlysur.

Creodd Lowri Roberts lun i gyd-fynd ag englyn a gyfansoddwyd yn arbennig gan Archdderwydd Cymru, Myrddin ap Dafydd a cyhoeddwyd cyfres o fideos 'Dawnsio gyda Dewin a Siani Sionc'. Mae'r Mudiad hefyd yn gyffrous iawn i lawnsio Llyfr Dathlu 50 gan Mererid Hopwood fis Hydref. Cynhaliwyd Gŵyl Dewin a Doti Rhithiol nol ym mis Mehefin gyda Martyn Geraint, Siani Sionc, Dewin a Doti. Ac yna, ym mis Gorffennaf cynhaliwyd 'Wythnos Parti Dathlu 50'. Bu nifer fawr o Gylchoedd yn dathlu gyda phartion a derbyniodd pawb becyn ar gyfer cynnal y dathliadau. Braff hefyd oedd gweld bod dros 80 o 'selebs' Cymru wedi creu fideos byr i ddymuno pen-blwydd hapus i'r Mudiad a rhannwyd rhain ar ein cyfryngau cymdeithasol. Llond trol felly o weithgareddau i ddathlu'r hanner cant ac yma, yn ardal y Cardi Bach mae Cylch Meithrin Hywel Dda yn dathlu y garreg filltir bwysig hon ym mis Medi. Llongyfarchiadau mawr i'r Cylch a phob dymuniad da.

Meddai Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin:

"Holl genhadaeth a phwrpas ein gwaith yw defnyddio'r

blynyddoedd cynnar fel cyfrwng i greu siaradwyr Cymraeg newydd, o blith y plant na fyddai'n siarad Cymraeg fel arall, ac mae'r profiad o ddysgu trwy chwarae yn holl bwysig yn ei hawl ei hun. Ond credaf mai gwaddol mwyaf y Mudiad fydd gweld nad oes mo'i angen ryw ddiwrnod, pan bydd ein cyfundrefn gofal ac addysg yn darparu'r gefnogaeth orau posib i'r plant lleiaf a hynny'n awtomatig trwy gyfrwng y Gymraeg. Gobeithio y gwiredir hynny cyn cyrraedd y 100fed pen-blwydd!"

Cylch Meithrin Llandysilio yn dathlu 50 y mudiad

Mae Cylch Meithrin Llandysilio wedi bod yn brysur iawn dros y tymor olaf yn dathlu penblwydd Mudiad Meithrin yn 50 oed. Rydyn wedi cael llawer o hwyl yn gwneud gwahanol weithgareddau ar y thema 'Dathlu', ac i orffen y tymor cynhaliwyd Mabolgampau a parti penblwydd i ddathlu. Plant staff a rhieni wedi mwynhau yn fawr iawn.



LD

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartedig
Hendyggwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

CEGINAU CLASUROL
Classic Kitchens
Hendyggwyn ar Daf

Ceginau ac Ystafelloedd Gwely wedi eu gwneud i fesur	<i>David a Jackie John</i> Uned 1-3 Stad Ddiwydiannol Hendyggwyn ar Daf
---	--

Ffôn: 01994 240176 • Ffacs: 01994 240572

CBS
CRYMYCH

ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

CYLCH MEITHRIN HENDYGWYN YN DATHLU 50 MLYNEDD

Medi 2021

Atgofion sefydlu'r Cylch gan Margarette Hughes

Bore 'ma bues i ym mharti penblwydd Cylch Meithrin Hendygywyn yn hanner can mlwydd oed. Mor wahanol mae agwedd pobol 2021 i agwedd pobol 1971! Roedd hi'n amlwg bod yr holl rieni a phob mamgu a thadcu oedd yna heddi yn ymfalchio bod eu plantos bach yn cael y cyfle i ddysgu ac i siarad ein hiaith.

Pan agorais i'n drws ni ym 1971 i'r saith plentyn bach cynta' fentrodd i'n parlwr ni, ces i 'ngalw'n eithafwraig am siarad Cymraeg â nhw. Erbyn hyn mae'r holl frwydro buon ni'n wneud yn y saithdegau am addysg gyflawn Gymraeg wedi talu ffordd achos mae dilyniant bellach o'r Meithrin i'r Cynradd ac i'r Uwchradd.

Wrth weld rhai o'r hen wynebau cyfarwydd fu'n cynorthwyo gyda'r fenter hanner can mlynedd yn ôl yn mwynhau Siani Sionc bore 'ma, roedd llw o atgofion yn llifo nôl i'm cof am yr amser prysur, cyffrous hwnnw. Byddai'r plant dros y tŷ i gyd, peintio yn y gegin a chwarae dŵr, tegannau a chlai yn y parlwr, pwll tywod mas yn y berllan a stori a sgwrs yn y lolfa. Ro'n i'n hala drwy'r prynhawn yn clirio lan!

Hoff offer y plant oedd ffram ddringo a llithren a wnaethpwyd gan Roger Evans i ni. Roedd e'n athro saer coed yn ysgol Arberth ac roedd Dafydd, ei fab, yn un o'r plant cynta' ar y gofrestr, a'i wraig Elaine oedd ein trysoryddes. Jean Parri Roberts oedd ein hysgrifennyddes a fi oedd y cadeirydd!

Diffyg arian oedd ein problem fwya i brynu adnoddau fel paent a chlai a chraeons a phapur. Ro'n i'n gwneud 'toes' allan o fflwr plaen a dwr a rhoi digon o halen ynddo i arbed y plant rhag ei fwyta! Bydden ni'n cynnal ffefuriau sborion yn aml ac yn gwerthu dillad ail-law ar stondin yn y farchnad yng Nghaerfyrddin. A bob Pasg bydden ni'n codi arian drwy ein Ffair Hetiau Pasg. Bore coffi oedd hwn lle byddai mamau'r plant yn dangos eu gallu i greu'r hetiau mwyaf anhygoel! Byddai gwobrau i'r buddugwyr a byddai'r hetiau yn cael eu harddangos yn ffenest siop Tony.

Cyn hir, roedd Mudiad Ysgolion Meithrin wedi ffindio'i draed a ffurfiwyd Pwyllgor ymhob sir.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ym Mhibwrlwyd a bob blwyddyn byddai'r cyfarfod blynyddol yn cael ei gynnal mewn gwahanol sir. Ein tro ni oedd hi ym 1978, pan oedd Hywel D. Roberts yn ymddeol fel cyfarwyddwr a Brian Jones yn dechrau yn y swydd. Ces i'r syniad o gynnal cystadleuaeth i greu logo i'r sir. Dewiswyd ymgais David Bown o Lansteffan, sef y bachgen a'r ferch fach yn dal dwylo. Pan welodd y Pwyllgor Cenedlaethol e, penderfynnon nhw ei fabwysiadu fel y logo cenedlaethol.

Ym 1972 daeth yr Eisteddfod Genedlaethol i Gaerfyrddin. Tan hynny, y W.R.V.S. oedd wedi rhedeg

meithrinfa ar y maes. Gofynnodd Bethan Roberts, yr ysgrifennydd cenedlaethol i fi i ddod i gytundeb gyda'r W.R.V.S. fel bod Meithrin yn rhannu'r dasg. Bu cyfarfodydd di-ri a llawer o drefnu a cholli cwsig ond yn y diwedd bu'n llwyddiant mawr a byth wedyn, y mudiad sydd wedi rhedeg y feithrinfa.

Bob blwyddyn cynhaliwyd Wythnos Feithrin ymhob sir. Mae un yn sefyll yn y cof yn arbennig, pan ddaeth Dafydd Iwan i'r llyfrgell yng Nghaerfyrddin i'n diddori. Roedd pob ysgol feithrin wedi bod yn gwerthu balwnau ar gyfer yr achlysur ac roedd Dafydd yn mynd i'w gadael bant o flaen hen Ysgol Bro Myrddin. Aethon ni, y Pwyllgor, lan y noson cynt I lenwi'r balwnau a helium a'u rhoi'n saff dan rwyd. Pan gyrhaeddodd y funud fawr trannoeth, roedd y mwyafrif yn hollol fflat ac yn gwrthod codi i'r awyr o gwbl!

Pan ddaeth Mabon a Mabli i fodolaeth, penderfynon ni wneud cacen anferth, tair haen allan o focsys cardfwrdd a'u haddurno gyda artex. Cytunodd Roy Llywellyn i wisgo lan fel Mabon ac fe neidiodd e allan o'r gacen tra'n cael ei dywys mewn lori ar hyd strydoedd Caerfyrddin!

Roedd fy nghalon yn llawn balchder bore 'ma i weld bod yr egin bach a blannwyd yn ein parlwr ni, wedi llwyddo i ddechrau cenedlaethau o blant bellach ar y llwybr i ddwy-ieithrwydd. Mae Jayne a Christine a'r criw presennol sydd lawr yn Ysgol Llys Hywel yn gwneud gwaith mor werthfawr i sicrhau, 'bod yr iaith yn fyw yng nghân ein plant'. Penblwydd hapus Cylch Meithrin ac ymlaen i'r hanner canrif nesa'!

Dyma enwau'r saith plentyn cyntaf ar y gofrestr: Dafydd Evans, Christopher Allen, Deborah Rees, Jennifer Pitt, Rodney Burtonshaw-Haines, Dafydd Hughes, Sara Jane Kemp.

Parti Nadolig 1972



Parti Nadolig cynta'r Ysgol Feithrin yn festri'r Tabernacl Hendygywyn. Jim Parcnest yw Sion Corn a'r bedair yn y cefn yw, o'r chwith, Margaret Pitt, Jean Parri Roberts, Margarette Hughes, Ann Gibbon a Pearl Holding, rhai o'r gwirfoddolwyr oedd yn helpu i redeg y Cylch ar y dechrau.

Cylch Meithrin Hywel Dda Diwrnod y Dathlu

Mwynhaodd Cylch Meithrin Hywel Dda fore gwych yng nghlwb criced Hendygywn ar Daf ddydd Sadwrn 11eg Medi yn dathlu'r Cylch yn troi'n 50 oed.

Dros yr hanner canrif diwethaf, mae'r grŵp chwarae cyfrwng Cymraeg wedi cefnogi addysg a datblygiad nifer fawr o blant cyn-ysgol o Hendygywn ar Daf a'r ardaloedd cyfagos, ac roedd nifer o'r gymuned wedi troi lan ar y dydd i gydnabod a dathlu'r garreg filltir wych hon.

Roedd hyn yn cynnwys teuluoedd o'r ardal, Maer y dref - Jenny Davies-Scourfield, y Cynghorydd Sue Allen a staff blaenorol a phresennol, gan gynnwys Mrs Margarette Hughes ei hun. Cyflwynodd y Cylch anrheg arbennig iddi er mwyn coffáu sefydlu'r Cylch nôl yn 1971.



Roedd y plac, a gynlluniwyd gan Lucy Rocks, yn cynnwys englyn a ysgrifennwyd gan y Prifardd Aled Gwyn:

Anadlodd sawl cenhedlaeth - yma rin
ym mro eu magwraeth;
iaith eu gwlad a'u treftadaeth
roddwyd yn fwyd ac yn faeth.



Mae Mrs Jayne Williams a Mrs Christine Evans, yr arweinydd a'r cynorthwy-ydd presennol, wedi dathlu bod yn eu rolau ers dros 20 mlynedd yn ddiweddar a theimlodd aelodau'r pwyllgor, oherwydd eu hymdrechion i sicrhau llwyddiant y Cylch, y dylid hefyd gael rhodd fach i gofio'r achlysur.



Siani Sionc yn diddanu'r plant


Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE

Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr

ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON
A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH,
SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd Ffôn: 01994 448310
Llangynin Ffacs: 01994 448693
San Clêr
SA33 4LD e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SION HARRIES
SEIRI COED
EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED

FFÔN:-
01994 240857 

Siani Sionc oedd ein gwestai arbennig ni, ac roedd rhai o'r plant yn gyffrous iawn i gael cwrdd â hi. Mwynhaodd y plant y canu a'r dawnsio a chafon nhw eu gwobrwyo am eu hymdrechion gyda chacen, sticeri a balwnau.

Roedd cyfle i hel atgofion gydag arddangosfeydd lluniau yn cynnwys aelodau blaenorol o staff a phlant sydd wedi mynychu dros y blynyddoedd.



Mrs Pitt a Mrs Gwyneth Davies, dwy fu'n cynorthwyo



Cacen y dathlu

Gwahoddwyd Llawn Cariad o Sanclêr, siop anrhegion Cymreig lleol, i ddod â'i stondin i'r digwyddiad ac i arddangos sampl o'r teganau a llyfrau sydd ar gael i blant. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus ac mae'r pwyllgor a'r staff yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth barhaus gan y gymuned leol; rydym yn cydnabod y byddai'r drysau i'r Cylch ar gau heb hyn. Rydym yn ddiolchgar yn arbennig i Ed John, Fferyllfa Clunderwen am noddi'r digwyddiad, a hefyd i Glwb Criced Hendy-gwyn ar Daf a Valero am ddarparu'r babell.

Penblwydd Hapus ac yn awr ymlaen i'r hanner canrif nesaf!

Kate Rothwell, ysg.

LLAWN CARIAD

**Detholiad o anrhegion
Cymraeg a Saesneg
o safon**

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

WYN'S TYRES

BRECIAU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisiau cystadleuol
a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: (01994) 231599

Bysiau Cwm Tâf

"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"

PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH

01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

LLANGLYDWEN

Cydymdeimlo

Diolch i Eurfyl am lunio'r deyrnged hon i Wyn Owens, Glas y Dorlan a fu farw ddiwedd Gorffennaf. Mae'n crisialu ein teimladau ni oll yn Llanglydwen. Fel dywed Eurfyl, braint oedd cael ei adnabod, pleser cael bod yn gymydog iddo ac anrhydedd ei adnabod fel ffrind.

Bydd trigolion y pentref yn gweld ei eisiau yn fawr ac er nad oedd wedi cael cyfle i ddod i adnabod nifer o'i gymdogion newydd, roedd pawb yn ymwybodol o'r parch a'r hoffter mawr ohono ar hyd ardal eang. Roedd y nifer enfawr o bobl a ddaeth ynghyd i ddweud ffarwel yn ei angladd ar gae chwarae Llanboidy ac yn hwyrach y prynhawn yn Nhafarn y Bont yn dyst o hynny.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mags, Karina a Nick, Bleddyn yma yn Llanglydwen, ac i'r teulu cyfan yn eu hiraeth a'u galar.

Wyn Bach



Taenwyd ton o dristwch dros bentre Llanglydwen, ac yn wir dros gymuned eang, ddiwedd mis Gorffennaf, pan glywsom am farwolaeth Wyn "Bach" Owens, Glas y Dorlan.

Bu Wyn yn brwydro yn erbyn cancer ers bron i ddwy flynedd, deliodd gyda'i salwch yn ddi rwnach a dewr, gan gadw ei hiwmor heintus hyd y diwedd.

Saer coed oedd Wyn wrth ei alwadigaeth, roedd yn feistr ar ei grefft, ond gallai droi ei law at unrhyw beth. Er gwaetha ei salwch, adeiladodd Wyn wal tu fas ei gartre, ynghyd a phlastro rhan fwya ohoni, yn ystod y misoedd dwetha. Un o'r pethe dwetha wnaeth Wyn gyflawni, oedd gosod ffens trellis ar batio Lluet, fel syrpreis i Jill, oedd lan yn Aberystwyth ar y pryd.

Roedd Wyn yn aelod yng nghapel Cefnyfant ac er

nad oedd byth yn mynychu'r oedfaon yno, byddai'n talu'r weinidogaeth yn flynyddol. Serch hynny, roedd yn arddel ac yn gweithredu rhinweddau gorau bywyd - roedd yn berson annwyl, cyfeillgar, cymwynasgar, llawn hiwmor a wastod yn cefnogi ei gyd ddyn. Byddai Wyn bob tro gyda'r cynta i fy nodd, wrth i mi godi arian tuag at elusennau, pan fyddem yn cymryd rhan mewn teithiau beicio a cerdded nodedig.

Ces i'r pleser o gydweitho'n agos gyda Wyn, yn fuan wedi i ni symud i fyw yn Llanglydwen - Wyn yn drysorydd a minne'n gadeirydd ar bwyllgor cymuned y pentre. Roeddwn gallu ymddiried a dibynnu'n llwyr arno bob amser, beth bynnag y dasg oedd angen cyflawni. Roedd hi'n arferiad gennym fel pwyllgor y gymuned i gynnal diwrnod hwy a nosweithie gwisg ffansi. Roedd Wyn yn ei elfen ac wrth ei fodd yn gwisgo lan - pwy all anghofio amdano yn gwisgo lan fel Corryn, Bin Laden a'r Broga Gwallgo?!

Cyflawnodd diwrnod da o waith yn y cae chware hefyd, Bu'n trwsio'r offer ac yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar y fainc, y fordydd a'r iet yn gyson.

Roedd ei deulu yn bwysig iawn i Wyn ac roedd yn meddwl y byd o Mags, Karina a Nick - ei wraig, ei ferch a'i fab yng nghyfraith, yn ogystal a'i frodyr, chwiorydd a'r teulu ehangach.

Clywais ambell un yn cyfeirio at Wyn Bach fel Wyn "Huge". Efallai bod elfen gref o tafod yn y boch yn yr arferiad, ond wedi ystyried ymhellach, credaf eu bod nhw'n agos iawn ati ac wedi taro'r hoelen ar ei phen. Er fod Wyn yn fach o gorff, roedd yn gymeriad "huge" - cawr ar goese byrion.

Braint oedd cael ei adnabod, pleser cael bod yn gymydog iddo ac anrhydedd cael cyd gerdded ar ran o lwybr bywyd yn ei gwmni.

Estynnwn ein cydymdeimlad pennaf i Mags, Karina, Nick ac i'r teulu cyfan yn eu hiraeth a'u galar. Cysga'n dawel Wyn Bach. X

Penblwydd Arbennig

Penblwydd Hapus iawn a phob dymuniad da i Jack Lan (Jack James, Lan) a fydd yn 80 oed ar Hydref 26ain. Bydd rhaid cael peint bach i ddathlu yn y Bont!

CJ Waste cyf.

Carl Britton
01994 238367
07506 482007



cjwasteltd@yahoo.com

Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ

Carwyn a Sian James

J. K. Lewis a'i Fab

Glandy Cross

SPAR



Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol,
Gwin a Chwrrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy,
Loteri a phob peth fydd angen amoch ar
unrhyw achlysur.

Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.
Dydd Sul, 7y.b. - 6 y.h.

Ffôn: 01994 419230



G WILLIAMS
a'i FEIBION

Monumental Masons

SEIRI MEINI COFFA

Pentre Yard
San Clêr

Ffôn: (01994) 231390



Diolchiadau

Dymuna Mags, Karina a Nick, ddiolch i bawb am y llu cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau ers colli Wyn. Diolch arbennig i Eddie, Eurfyl a Dorian Phillips a'r bechgyn am helpu i orffen y wal a'r gwaith tu allan i'r tŷ ac i Rick a Sandra y Bont am y lluniaeth ddiwrnod yr angladd.

Diolch hefyd i Dennis Jones a'r Parchedigion Jeni Parsons a Huw George am eu gwasanaeth ac i bawb a fu'n gyfrifol am baratoi'r cae ar gyfer yr angladd. Diolch i chi gyd.

Dymuna Jill, Lluest ddiolch i bawb am yr holl nege-seuon a chardiau a dderbyniodd ar achlysur ei urddo yn Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr. Mae'n eu gwerthfawrogi yn fawr iawn ac yn edrych ymlaen i'r ddwy flynedd nesaf yn fawr iawn. Diolch pawb.

BLAENWAUN

Dymuniadau gorau i Mary Anthony, Waunfawr sydd wedi bod yn yr ysbyty. Gobeithio y cewch lwyr iachad yn fuan.

Llongyfarchiadau gwresog i Rhodri Evans, Maes yr Haf sydd wedi cael swydd darlithydd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn yr Adran Addysg.

Cydymdeimlwn yn fawr ag Ann Phillips a'r teulu, Swyn y Wawr ar golli ei llys-dad sef John Gibbin. Colled fawr i'r teulu. Dyn a roddodd wasanaeth oes i'w gymuned.

Diolch

Dymuna Mike a Nia Llewellyn ac efaill Nia, Nerys Nicholas ddiolch i bawb am y cyfarchion, cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar adeg eu penblwyddi arbennig mis Awst.

Moriah

Diolch i'n gweinidog y Parchedig Gareth Ioan am ei wasanaeth ar fore Sul, 12fed Medi. Disgwylir Nigel Davies i'n hanerch mewn oedfa ar Sul, Medi 26ain am 2 o'r gloch. Cynhelir ein Cwrdd Diolchgarwch ar Sul, Hydref 17fed am 3.30yp pan bydd ein gweinidog yn gwasanaethu. Pob dymuniad da i'n trysorydd Rosemarie Davies, Fferm Blaenwaun, sydd wedi cael llawdriniaeth yn yr ysbyty. Rydym am ddymuno yn dda hefyd i Emyr Phillips, Cilgerran, sydd yn cael triniaeth. Yntau wedi gorfod gohirio ei wasanaeth ar hyn o bryd.

CWMFELIN MYNACH**Ramoth**

Ar ôl bod ar gau am amser maith oherwydd y pandemig, sydd wedi effeithio ar fywydau pawb ymhobman, mae'n galonogol i weld fod y capeli yn dechrau ail-agor.

Yn hanes Ramoth, bu nifer o'r merched yn glanhau'r festri a chael trefn ar y gegin. Ar ddechrau mis Medi bu cwmni proffesiynol yn adfer tu fewn yr adeilad a phleser oedd trefnu oedfa Gymun ar gyfer Sul, Medi 12fed am 2 o'r gloch o dan arweiniad Y Parchg. Huw George.

Oedfa mis Hydref:

3ydd - Oedfa Gymun - Mrs Annalyn Davies am 2.00

Cydymdeimlwn â Roy Llewellyn ar farwolaeth ei frawd, Les, yn ystod mis Gorffennaf. Bu'r angladd yng Nghalfaria, Lloyn.

....hefyd â Gerald ag Eileen Blain a'r teulu ar farwolaeth brawd Eileen sef Wyn Owens, Llanglydwen.

Dymuniadau gorau i Caroline James, Blaendyffryn a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 50 oed ym mis Awst.


Ymddeoliad hapus i Merle a Terry Jones, sydd wedi ymddeol ar ôl 21 mlynedd o wasanaeth clodwiw fel glanhauwyr a gofalwyr Ysgol Bancyfelin.

Gwellhad buan i Meirwen Evans sydd wedi cael anffawd ar ôl syrthio.

Diolch. Hoffai Allen a Heulwen Lewis, Cefnypant House, ddiolch i bawb am yr holl gardiau a blodau a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Ddiemwnt. Hefyd i bawb am gyfrannu at Meddygfa Taf, i Gaffi Beca am y bwyd a'r croeso ac i Miss Sioned Thomas am wneud y gacen. Diolch i chi gyd.

Diolch. Dymuna Roy a Rhoswen ddiolch yn fawr am y cardiau niferus, galwadau ffôn, blodau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Ddiemwnt yn ddiweddar.

Diolch. Dymuna Angharad Phillips a Barrie ddiolch am y dymuniadau da ar eu dyweddiad yn ddiweddar.

Penblwydd Hapus yn 70 oed

Penblwydd hapus i Iori Saer, Blaenffynnon, Cwmfelin Mynach, fydd yn dathlu ei benblwydd yn 70 oed ar Hydref 11eg. Dim rhoddion os gwelwch yn dda, ond os dymunir, bydd unrhyw gyfraniad at elusen Ambiwlans Awyr Cymru yn dderbyniol iawn.

Cariad mawr oddi wrth Ceri, Meleri, Buddug a'r teulu oll.

HENLLANFALLTEG

Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed am golled teulu Mathias, Penback. Mae Ann wedi colli chwaer yn ddiweddar a hefyd mab yng nghyfraith, sef Gary Pridmore o Llandysilio.

...hefyd Gethin ac Eleri Gibbin, Drefach a'r teulu ar golli wncwl Gethin, sef John Gibbin a chefnider Eleri sef Arwel Davies o Llanwrda.

Estynnwn ein cydymdeimlad i'r ddau deulu.

Priodas Ddiemwnt



Llongyfarchiadau i Dad a Mam, Tegwyn a Mary Davies, Caeremlyn ar ddathlu eich Priodas Ddiemwnt yn ddiweddar. Gyda chariad wrth Enfys, Wyn, Fflur, Rhys, Eleri, Jason, Lili a Ben xx

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Elen Mai Gibbin, Fferm Drefach, Henllan Amgoed ar ei gradd LLB dosbarth cyntaf yn y Gyfraith a Ffrangeg o Brifysgol Abertawe. Mae Elen hefyd wedi derbyn dwy wobwr am y Fyfyrrwraig orau yn y flwyddyn olaf

yn Ffrangeg a hefyd am y marc uchelaf mewn arholiad Ffrangeg. Mae'r teulu i gyd yn browd iawn ohonot ac yn dymuno pob lwc i'r dyfodol.

LOGIN

Calfaria

Ail agor y Capel

Roedd hi'n hyfryd i ddod at ein gilydd i gyd addoli unwaith eto ar brynhawn Sul, Medi 5ed, mewn oedfa gymun dan ofal Mrs Dwyngwen Teifi. Bu'r capel ar gau am bron i flwyddyn a hanner ac yn ystod y cyfnod hwnnw, gosodwyd 35 o fyfyrddod ar ein tudalen facebook. Gwnaeth rhain brofi'n gyfrwng bendithiol i nifer ohonom a rydym yn ddiolchgar iawn i bawb wnaeth gyfrannu rhain yn ystod y cyfnod clo. Fe wnaeth Dwyngwen baratoi myfyrddod i ni ar dri achlysur ond roedd yn hyfryd i'w gweld yn y cnawd, yn y capel, yn hytrach nag edrych arni ar sgrin fach. Diolch iddi am ei gwasaneth.

Glanhad dwfn

Bu cwmni glanhau Ultima o Aberteifi yn cyflawni glanhad dwfn o'r capel ar ddechre mis Medi ac mae'n bleser gweld y lle erbyn hyn.

Y Fynwent

Mae'n bleser gweld y fynwent a'r maes parcio hefyd, wedi i John Davies a Russell Davies fod yn torri'r porfa. Diolch o galon iddynt, diolch hefyd i Valerie Davies ac Endaf Davies fu'n eu cynorthwyo.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Noreen, Alison, Amanda, Barry a Joanna a'u teuluoedd ar farwolaeth gŵr, tad, tadcu a hen datcu annwyl sef Les Llewellyn. Cydymdeimlwn hefyd gyda'u frodyr a'u chwiorydd sef Roy, Peter, Beryl a Carol. Bu Les yn gofalu am y fynwent am nifer o flynyddoedd ac roedd wastod yn cymryd balchder yn y gwaith.

Cydymdeimlwn hefyd gyda'r canlynol - John a Valerie Davies ar farwolaeth eu brawd sef Wyn Owens a Mefin Lewis ar farwolaeth ei chyfnither sef Nancy Thomas o Lanelli.

Penblwydd

Dymunwn benblwydd hapus i Mary Llewellyn, Garth fydd yn dathlu ei 90 oed ar Hydref 8fed.

Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i'r canlynol - Eirianydd Lewis a Margaret Williams.

Llongyfarch

Llongyfarchiadau i Mark a Sarah Gibbins ar ddod yn

WYN HOWELLS
Dandre
Llanboidy



Paentiwr ac
Addurnwr

Ffôn: 01994 448478

STEVE DANIELL
Monraker




Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"




Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf

Ffôn: 07837 089648

arwyddion
eaglesigns

Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion,
Argraffu a Lfrau Cerbydau...

01994 231 749

post@eaglesigns-wales.co.uk

www.eaglesigns-wales.co.uk

UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

ddadcu a mamgu eto. Jack ac Emily wedi cael merch fach, Elin, chwaer fach i Evie. Pob dymuniad da i'r teulu bach sydd yn byw yng Nghydwl.

Cydymdeimlwn â Guto, Meinir, Iwan a theulu Rhosfach Login ar farwolaeth lanto Siôr Jenkins. Rydym fel ardal yn meddwl amdanoch yn eich colled drist.

CWM MILES

Capel

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch y capel ar Sul, Hydref 10fed am 2 o'r gloch. Disgwylir Arwel Evans i'n gwasanaethu.

Cylch Meithrin Ffynnonwen

Mae'r Cylch Meithrin yn mynd yn dda gyda 27 o blant ar y gofrestr! Os ydych eisiau eich plentyn fynychu'r Cylch, cysylltwch ar 07796 413308.



Clwb hwyl am y tro cyntaf eleni gyda 13 o blant bob dydd! Plant wedi mwynhau gwneud llawer o weithgareddau, Yoga a tynnu tatws o'r ardd.

RHYDWILYM

Braf oedd cynnal gwasanaeth fore Sul, 5fed o Fedi ar ôl amser hir pan oedd drysau y Capel ar gau. Diolch i Dwynwen Teifi am wasanaeth bendithiol iawn.

Ar Sul, Medi 19eg byddwn yn cynnal oedfa Gymun am 10.30 y bore, pan fydd y Parch. Peter Thomas yn gwasanaethu.

Ar y 13eg o Orffennaf bu farw ein haelod hynaf, sef Islwyn John, ac yntau yn 97 mlwydd oed. Cynhaliwyd angladd breifat iddo ym Mhare Gwyn. Yn ôl ei ddymuniad bydd ei lwch, a llwch ei briod Evelyn yn cael eu claddu ym medd y teulu ym mynwent Rhydwlwym. Y dyddiad i'w drefnu yn ddiweddarach.

Yr ydym i gyd yn cydymdeimlo gyda'i ferch Janet, ei phriod Michael a phawb o'r teulu.

Cynhaliwyd angladd ewythr Ian Eynon, sef John Jenkins o Nant-yfyllon yn y Capel ar Awst 9fed. Claddwyd ei weddillion ym medd ei chwaer Elvira a'i phriod Griff. Cydymdeimlwn gyda Ian, Sandra a'r teulu i gyd.

Dymunwn yn dda i holl aelodau a ffrindiau yr Eglwys yn Rhydwlwym.

SAN CLER

Llongyfarchiadau i'r ddwy chwaer Hannah a Celyn Richards ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod AmGen. Daeth Celyn yn 2ail yn yr Unawd Cerdd Dant dan 16 oed a Hannah yn 2ail yn yr Unawd Alaw Werin a 3ydd ar yr Unawd Cerdd Dant. Braf oedd eu gweld, hefyd, ynghyd â'u brawd Steffan, yn clocio gyda Clocswyr Cowin. Da iawn chi!

Penblwydd hapus i Cao Pryce, Bryncaerau a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 18 oed ar Awst 7fed.

Penblwydd hapus hefyd, i Megan Morris, Heol Dinbych y Pysgod a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar Awst 19eg.

RHYDYCEISIAID

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Rhodri Evans, Maesyrhaf ar gael ei apwyntio yn Ddarlithydd yn yr Adran Addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Campus Rhodri! Pob lwc yn y dyfodol.

Diolch i'r Parchg Guto Llywelyn am ei garedigrwydd bob amser.

Gwellhad buan i bawb sy'n anhwy-lus yn eu cartrefi.

Rosemarie Davies

Cyfrifdd Technegol

Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon

Cyflogau
Hunan Asesiad

Fferm Blaenwaun, Hebron

Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799

Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians



Delwedd

Triniaeth o safon mewn
awryglych gartrefol gan Nia

Safle siop trin gwallt Chris, Crymch

Salon
Harddwch
a
Chyflenwol

Ffôn:
01239 831479

Wyndham Phillips a'i Feibion

POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr

Bara a chacennau ffres yn ddyddiol



Ffôn: 01994 230474

CEFNYPANT

Capel Cefnypant

Cydymdeimlad

Cofnodwn golli tri aelod o'r capel dros y misoedd dwethaf.

Cofiwn am Meima Jenkins, Dyffryn Tawel, Cefnypant, a fu farw ar Fai 9fed yn 96 oed. Nid Dyffryn Tawel wedwn ni yng Nghwm Frowen a'r cylch, ond 'Tower'. Yn y Tower bu Meima'n byw ar hyd ei hoes, yn aelod ffyddlon o'r capel, a'i thad Owen yn ddiagon ac yn arweinydd y Gân am flynyddoedd lawer. Yng nghartref Waungron, Hendygywn yn treuliodd Meima bedair blynedd olaf ei bywyd. Cydymdeimlwn â'i chyfnither Mrs Eilyr Thomas a'r teulu oll.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Wyn Owens, Glas y Dorlan, Llanglydwen. Yn saer coed wrth ei alwedigaeth, goddefodd Wyn ei salwch yn ddewr ac am yn agos i flwyddyn a hanner, fe barhaodd i wneud ychydig o waith pan oedd yn ddigon cryf. Bu farw ar ddydd Sul, Gorffennaf 25ain yn 54 oed. Cydymdeimlwn fel aelodau â'i deulu, ac yn arbennig ei wraig Mags, a Karina a Nick, ei merch a'i mab yng nghyfraith.

Ar Orffennaf 28ain bu farw John Gibbin, Maesmeini, Glandy Cross, gynt o Benrallt, Login. Roedd John Penrallt yn ddiagon yn y Capel, a bu'n Drysorydd ac arweinydd y Gân. Bu'n Gynghorydd am flynyddoedd hefyd. Roedd bob amser yn barod ei gymwynas a'i farn pan oedd angen gwneud penderfyniad. Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs. Lon Gibbin a'r teulu.

Diolch

Dymuna Bill, Glenys, John, Valerie ac Eileen (Pensarn gynt) a'u teuluoedd, ddiolch yn ddiffuant am bob neges ac arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt ar golli Wyn Owens, Glas y Dorlan, Llanglydwen.

Dymuna Bill hefyd ddiolch i'w gwsmeriaid am y geiriau caredig o gefnogaeth a chydymdeimlad a fynegwyd iddo yntau dros yr wythnosau diwethaf.

EFAILWEN

Cydymdeimlad

Mae cymuned Efailwen mewn galar wedi marwolaeth Ianto Sior Jenkins, bachgen bach annwyl tair mlwydd oed a'n gadawodd nos Fawrth, Awst 3ydd mewn damwain trychinebus ar fferm y teulu'n Rhosfach. Mae ein cydymdeimlad a'r teulu oll.

....hefyd mae ein cydymdeimlad â Lon Gibbin, Maesmeini, Glandy Cross a'r teulu wedi colli ei gŵr ffyddlon John Gibbin ddiwedd Gorffennaf. Rydym i gyd yn Glandy Cross yn gweld ei eisiau.

.... hefyd â Dennis a Jean Jones Maesawelon a'r teulu oll wedi iddynt golli mam, mamgu a hen famgu annwyl, sef Rhiannon Jones gynt o Delwydd. Roedd Mrs Jones yn uchel ei pharch yn y pentre, yn aelod ffyddlon yn Nghapel Nebo wedi bod yn athrawes yn yr Ysgol Sul am flynyddoedd, ac yn gyn lywydd Merched y Wawr Beca, oedd hefyd yn un o'r aelodau cyntaf o'r gangen.

Symud Ysgol



Dymunwn pob llwyddiant ac hapusrwydd i dair rhoces o Efailwen sydd newydd gychwyn ym mlwyddyn 7 yn Ysgol y Preseli, sef Lois Rowlands, Efa Griffiths a Mabli John, joiwch eich amser yno.

Colin J. Harries
Cigydd o Safon 
Gwasanaeth arlwyio ar gael hefyd
London House, 
Hendygywn-ar-Dâf 01994 240705
Galwch i mewn am y dewis gorau


GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio
a Phensarniol
15 STRYD ST IOAN, HENDYGYWYN,
SIR GAERFYRDDIN, SA34 0AN  01994 240 366
 GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK
 GERALDBLAINASSOCIATES.COM
 @GBASSOCIATES1

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR
 
Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

Penblwydd Hapus yn 80 oed



Llongyfarchiadau i Rhiannon Davies, Pencerrig, Efailwen, Clunderwen ar gyrraedd 80 oed ar ddydd Sul, 29ain Awst. Dymuniadau gorau a llawer o gariad oddi wrth Iorwerth a'r teulu i gyd.

Cynhaliwyd Helfa Drysor er budd Clwb Pel-droed Boncath nos Sadwrn cynta'r mis yn cychwyn a gorffen yng Nghaffi Beca. Cymerodd dros 20 o geir rhan yn yr helfa a aeth a ni am 10 milltir o gwmpas yr ardal. Diolch i Ffion a Rhodri John am drefnu'r noson hwyliog ac i Robert am baratoi swper blasus ar ddiwedd y noson.

Capel Nebo

Penderfynodd aelodau Capel Nebo i beidio ac agor y capel tan y flwyddyn newydd gan fod achosion o'r Covid yn dal i fod yn yr ardal. Bydd yr Ysgol Sul yn dal i gyfarfod yn rhithiol.

Diolch. Dymuna Dennis, Jean a theulu'r ddiweddar Rhiannon Jones o Delwydd, Efailwen ddiolch i bawb am bob cydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch yn fawr am y cyfraniadau hael er cof amdani tuag at Capel Nebo.

Dymunwn wellhad buan i Jean Jones, gynt o Neuadd Wen, sydd wedi bod yn anhwylyd yn ddiweddar ac hefyd i'w ffrind Fanw Davies, Rhoswyn. Bydd colled ar eich ôl yn Merched y Wawr Beca.

....hefyd i Liz Llewelyn sydd yn anhwylyd ar hyn o bryd.

Llongyfarchiadau i Sadie a Hywel Davies, Ladds Clunderwen, fydd yn dathlu eu Priodas Ddeiamwnt ar Hydref 29ain.

4ydd. Llywyddwyd y gwasanaeth gan y Gweinidog, y Parch. Rhodri Glyn Thomas a traddodwyd y deyrnged gan Dr. Hefin Jones, perthynas i Jean. Ann Jones oedd yr organyddes gyda Hilary Evans, gyda chymorth Elgan Thomas, yng ngofal y canu. Cydymdeimlwn â Elsbeth, Janice ar teulu oll yn eu colled.

Llongyfarchiadau i Annalyn ar gael ei chymhwyso yn Bregethwr Cynorthwyol gyda Chyfundeb Gorllewin Caerfyrddin. Mae eisoes wedi gwasanaethu mewn nifer o Eglwysi'r ardal ac wedi darparu myfyrdodau ar y we dros y cyfnod clo a dymunwn yn dda iddi. Deallwn fod y Suliau'n llenwi'n gyflym!

Mae Annalyn, hefyd, wedi ei phenodi yn Swyddog Cymunedol gyda Bethlehem Newydd wrth iddyn nhw addasu ac ehangu gwaith yr Eglwys i'r gymuned. Llongyfarchwn Annalyn ar ei phenodiad a dymunwn yn dda iddi gyda'r swydd ar adeg gyffrous yn hanes yr achos yn yr ardal.

Bydd oedfaon yng Ngibeon ar Hydref 17eg a Thachwedd 21ain am 10.30 o dan ofal y Gweinidog.

Capel Cana



Mae dathliadau 200 mlwyddiant Cana yn parhau! Mwynhawyd cinio'r dathlu yng Ngwesty Pen y Baedd ar bawn Sul, 18 Gorffennaf. Llywydd y prynhawn oedd John Thomas, Derllys

gynt a braf oedd ei glywed yn rhannu ei atgofion cyn iddo ef a'i briod Carol dorri cacen y dathlu. Diolch i Marlene am drefnu'r diwrnod ac i bawb a ddaeth.

BANCYFELIN

Gibeon

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Jean Jones, Derlwyn, ychydig wythnosau cyn cyrraedd ei phenblwydd yn 90 oed. Bu Jean yn ffyddlon a gweithgar yng Ngibeon drwy gydol ei hoes, yn ddiagon, organyddes, athrawes Ysgol Sul, dosbarthydd Y Tyst a sawl dyletswydd arall. Roedd gwybodaeth eang ganddi o'r ardal a bydd yn gadael bwlch ar ei hôl. Cynhaliwyd yr angladd yng Ngibeon ar brynawn Sadwrn, Medi

LLANGYNIN

Pen-blwyddi'r haf

Dymuniadau gorau i Enid Lewis, Maesawelon, a oedd yn dathlu ei phen blwydd arbennig yn 90 oed ar Awst 9fed.... ac i Myrddin Parry, Erw Lon ar ei ben blwydd yn 81 oed ar Awst 14eg

Gwellhad

Dymuniadau gorau i Myrddin Parry, Erw Lon, ac i John Lewis, Maes Mebyd, y ddau wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mark a Rhian White, Garnwen, ar farwolaeth modryb Mark, sef Doreen Trotman o Chesterfield, ar ddiwedd mis Gorffennaf... ac â Neil a Mary Edwards, Pleasant View, ar farwolaeth ewythr Neil, sef Islwyn John o Ddinbych-y-pysgod.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Rob a Jess Moffatt, Blaenpant, ar enedigaeth eu mab, Berwyn. Ganed Berwyn gartre ym Mlaenpant fore Sul, Gorffennaf 25ain.

Pencampwr Bowlio



Llongyfarchiadau mawr i Nigel Davies, Llain Deg, sy'n aelod o glwb bowlio Hendy-gwyn ar Daf, ar ennill cystadleuaeth sengl hŷn ("senior singles") Sir Benfro. Bydd Nigel yn cael y fraint o gynrychioli Sir

Benfro yn Llandrindod yng nghystadleuaeth yr 16 olaf yng Nghymru yn nes ymlaen y mis hwn. Dymuniadau gorau a phob lwc iddo.

Priodas Ddiemwnt



Llongyfarchiadau i Gerwyn a Martha Griffiths, Blaencorse, Llangynin, ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt ar Awst 30ain. Priodwyd y ddau yng Nghapel Nasareth, Hendy-gwyn ar Daf, ar Awst 30ain, 1961. Llongyfarchiadau mawr a llawer o gariad oddi wrth Marian a Sharon a'u teuluoedd.

Priodas Arian

Llongyfarchiadau hefyd i Mark a Rhian White, Garnwen, a oedd yn dathlu eu Priodas Arian ar Orffennaf 26ain. Pob dymuniad da iddynt wrth ddathlu pum mlynedd ar hugain o fywyd priodasol.

Neuadd Capel y Bryn

Bydd neuadd Capel y Bryn ar agor i'r cyhoedd o Fedi'r 14eg, 2021. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bod hawl ail-agor neuaddau pentref a chanolfannau cymdeithasol. Os ydych am logi'r neuadd, cysylltwch â Susan Phillips, Ysgrifenyddes y Pwyllgor Rheoli (01994 231066 neu drwy ebostio siwperiw@gmail.com.) am ffurflen llogi a chopi o amodau a thelerau llogi'r Neuadd a rheolau Covid-19.

Clwb 60+

Bydd cyfarfodydd y Clwb yn ail ddechrau ar 14eg o Hydref am 2 yp yn neuadd Capel y Bryn, Llangynin. Croeso nôl i bawb a chroeso cynnes hefyd i aelodau newydd.

Diolch. Dymuna Josh Lewis, Maesolbri, Llanybri ddiolch i bawb am y cyfarchion, cardiau, a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei benblwydd yn 18 oed ar ddechrau Awst.

Penblwydd Hapus yn 90 oed



Penblwydd hapus i Auntie Enid yn 90 oed ar Awst 9fed. Cariad Mawr oddi wrth Gordon, Dionne a'r plant xxxx

SPAR

Jerry Williams a'i Feibion

GROSER a SWYDDFA BOST

CLOTH HALL LLANBOIDY

Ffôn: 01994 448364 / 448221

Adelladwyr DORIAN PHILLIPS

Crefftwyr o bob math yn y diwydiant adeiladu o hen i newydd

Arbennigwyr mewn ail wneud Capeli, Eglwysi ac Ysguborau

Dolau Gronw, Llanboidy, Hendygywn, Sir Gar, SA34 0EE
Rhif: 01994 448435 : Rhif Symudol 07899 186036
e.bost: dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

dp MASNACHWYR ADEILADU

Plymio - Addurno - Coed - Draeniad
Insiwleiddio - Ceginau - Bathrwm
A Llawer Mwy!

LLANBOIDY - ARBERTH
01994 448435 - 01834 861118
www.dpbuidingsupplies.co.uk

PWLL TRAP

Braf oedd gweld ieuenctid o'r pentref yn cystadlu yn yr Eisteddfod AmGen.

Llongyfarchiadau i Elin Fflur Jones ar ennill cystadleuaeth yr Unawd Alaw Werin dros 16 ac o dan 21 oed a dod yn ail yn yr Unawd Cerdd Dant.

Llongyfarchiadau i Daniel O'Callaghan ar ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth Lefaru Unigol. Roedd ef hefyd yn rhan o'r grŵp clocio Clocswyr Cowin. Llongyfarchwn ef hefyd ar ennill gradd Dosbarth 1af yng Nghymraeg a Cherddoriaeth o Brifysgol Caerdydd.

Mae Doreen Thomas, Maes y Blodau wedi dathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar Awst 31ain a Rita James, Hafan Hedd, ei phenblwydd yn 80 oed ar Fedi 3ydd. Danfonwn gyfarchion penblwydd at y ddwy.

Hoffa Doreen Thomas ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ei phenblwydd arbennig ddiwedd Awst.

Dymuna Rita James, Hafan Hedd, ddiolch am yr holl gyfarchion, galwadau, cardiau ac anrhegion wrth iddi ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed ddechrau Medi.

Bethlehem Newydd

Dymunwn yn dda i Rolant Glyn a Harriet ar eu priodas yn Llundain ar Awst 29ain.

Penodwyd Annalyn Davies yn Swyddog Cymunedol i hyrwyddo'r gwaith o addasu ac ehangu gwaith yr Eglwys yn y gymuned. Dymunwn yn dda iddi wrth gychwyn ar y gwaith arbennig hwn.

Mae wedi bod yn braf medru cynnal oedfaon dros yr Haf, diolch i'r gweinidog a Mrs. Maria Evans am wasanaethau mis Awst. Dyma restr yr oedfaon am y misoedd nesaf:

Hydref

- 3 Oedfa Gymun dan ofal y Gweinidog, Y Parch Rhodri Glyn Thomas 10.00 y.b.
- 10 Cwrdd Diolchgarwch gan yr aelodau 10.00 y.b.
- 17 Oedfa yng Ngibeon Y Gweinidog 10.30y.b.
- 24
- 31 Mr. Lyndon Lloyd 10.00 y.b.

Tachwedd

- 7 Y Gweinidog Cymun 10.00
- 14 Mr. Alun Lenny 10,00
- 21 Y Gweinidog Gibeon 10,30
- 28 Y Parch. Wyn Vittle 10,00

Rhagfyr

- 5 Y Gweinidog Cymun 10.00
- 12 Annalyn Davies – Gwaith y Swyddog Cymunedol 10.00
- 19 Gwasanaethau Nadolig

Croeso cynnes i bawb

HENDYGWYN AR DAF

Tabernacl

Mae'r Hâf wedi mynd heibio ac mae'r Hydref wedi cyrraedd unwaith eto. Fe wnaeth y capel barhau ar agor trwy mis Awst a braf oedd croesawu Mrs Annalyn Davies a'r Parchedigion Howell Mudd a Rhys Locke atom i arwain yr oedfaon.

Trysorydd Newydd



Yn ystod y misoedd diwethaf mae Huw Jones wedi dechrau fel ein trysorydd newydd yn dilyn ymddeoliad Dewi James. Braf oedd cael diolch i Dewi yn ddiweddar am ei holl waith trwy gyflwyno anrheg o lun iddo. Pleser hefyd oedd cael croesawu Huw yn swyddogol a dymuno yn dda iddo fe.

TAF AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7 -12.00

**MASNACHWYR
ADEILADU**

Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr

Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf

Robert W. R. Morgan

ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC

17 Trevaughan Lodge
Hendygywn ar Daf
SA34 0QF

Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

ARWYDDION A DYLUION

BOOMERANG
SIGN & DESIGN

01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk

UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

Trist yw cofnodi ein bod wedi colli dau aelod yn ddiweddar. Fe fu farw Mrs June Jenkins ar ganol mis Gorffennaf ac rydym yn cydymdeimlo yn ddiffuant gyda Mel, Neil, Paul a'i teuluoedd yn eu galar.

Yna ar ddiwrnod cyntaf mis Medi fe fu farw Mr. Tom Gibbon. Yr un modd rydym yn cydymdeimlo yn ddiffuant gyda Yvonne a'r teulu yn eu galar.

Genedigaeth



Ar nodyn hapusach, braf yw cael llongyfarch Helen Brown a David Kerr ar enedigaeth eu merch Esmi Hâf. Pob dymuniad da iddynt wrth pawb yn y Tabernacl, Hendy-gwyn.

Byddwn yn cwrdd am 10.00 y bore am y misoedd nesaf yma ac mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno gyda ni. Hefyd bydd yr Ysgol Sul a'r grŵp trafod yn ail ddechrau cyn hir ac eto mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno gyda ni. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda Guto ar 01269 851 655.

June Jenkins, Ger-y-nant, Hendy-gwyn Diolch

Dymuna Mel a'r teulu ddiolch yn ddiffuant iawn i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt ar golli June. Diolch am y blodau, bwyd, galwadau ffôn a'r llu o gardiau a dderbyniwyd, ac i bawb fu'n sefyll ar hyd y ffordd o Ger-y-nant hyd at Gapel y Tabernacl a mynwent Soar.

Hoffai'r teulu estyn eu diolchgarwch i'r Parchedig Guto Llywelyn, am y modd urddasol arweiniodd yr angladd, i'r Parchedig Tom Defis fu'n cynorthwyo ar yr aelwyd, ac i'r Parchedig Huw George fu'n ein harwain mewn gweddi yn y capel. Diolch i Ken a Lynys Davies am eu cefnogaeth a'u cyngor wrth drefnu'r angladd.

Diolch arbennig i Meryl James am ymgymryd â'r trefniadau angenrheidiol oherwydd cyfyngiadau Covid ac i Ithel Parri – Roberts am dderbyn y cyfraniadau a roddwyd yn lle blodau. Casglwyd dros £1500, i'w rannu'n gyfartal rhwng MND a Meddygfa Taf. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Hoelion Wyth – Cangen Hendy-gwyn

Bydd cyfarfodydd cangen Hendy-gwyn o'r Hoelion Wyth yn ail ddechrau ar y nos Iau cyntaf ym mis Hydref am 8 o'r gloch yn lolfâ Clwb Rygbi Hendy-gwyn. Croeso cynnes i bawb yn aelodau hen a newydd.

Cylch Meithrin Hywel Dda



Mae'r Cylch yn ddiolchgar iawn i Mr Tom Leathers, un o rieni'r Cylch, am drefnu a pheintio ardal tu allan y Cylch fel rhan o'r 'Valero Volunteering Scheme'. Diolch iddo fe a'r gwirfoddolwyr eraill.

Abaty Hendy-gwyn ar Daf

Abaty Hendy-gwyn ar Daf – Mam Abaty y Sistersiaid yng Nghymru, unwaith yn gymdeithas ffyniannus o dros gant o fynachod, mangre lle claddwyd tywysogion, lle â chysylltiad agos crefyddol â Ffrainc ac Iwerddon – nawr yn ddim ond murddun anghofiedig.

Wel, dyna oedd y sefyllfa tan yn ddiweddar.

Nawr am y tro cyntaf mae Abaty Hendy-gwyn yn rhan o Ddathliadau Treftadaeth Cymru Drws Agored CADW. Ar ddydd Gwener, Medi 24ain. a dydd Sadwrn Medi 25ain. rhwng 10.00y.b. a 6.00 y.h. fe gynhelir ystod eang o atyniadau arbennig i gyfleu rhyw fath o syniad o fywyd yn y cyfnod pan oedd yr Abaty yn ei anterth yn yr Oesoedd Canol.

Mae cymaint yn digwydd dros y ddau ddiwrnod: teithiau anffurfiol, cwisiau, gweithgareddau plant, arddangosfeydd saethu bwa saeth, pladuro a arfwisgiau ganoloesol er enghraifft, yn ogystal â gemau awyr agored anferth megis Jenga, Connect4 a Noughts and Crosses i gadw pob oedran yn hapus. Hyn oll a stondinau yn cynnwys eitemau ganoloesol lle gallwch bori a phrynu. Fe fydd bwyd ysgafn ar gael a chan fod digon o le, pam na ddewch chi a'ch picnic eich hunan, eistedd nôl a mwynhau'r awyrgylch?

Mae Abaty Hendy-gwyn ar restr cofebau CADW, sy'n cydnabod ei bwysigrwydd yn hanes Cymru. Mae wedi ei leoli allan yn yr awyr agored, gyda thir garw naturiol,

felly cofiwch hynny – gwisgwch ddillad ac esgidiau ad-das. Prin yw'r cyfleoedd parcio, felly pam na cherddwch chi yno ar hyd lwybr cerdded yr Abaty i ddechrau eich hymweliad fel llawer i un arall ar hyd y canrifoedd?



Edrychwn ymlaen i'ch croesawu ar y 24ain. a'r 25ain. Cysylltwch â epost@hywel-dda.co.uk am fwy o wybodaeth. Gwiriwch ein tudalen weplyfr <https://www.facebook.com/WhitlandAbbey/am> fwy o fanylion am ddigwyddiadau a gweithgareddau. Os am wybod mwy am yr Abaty cyn dod i'n gweld, ewch i <http://whitland-abbey.wales/>

“Cadwch y Dyddiad”

Abaty Hendyŵyn

Dydd Agored

Mynediad am Ddim!

Dydd Gwener Medi 24ain

+

Dydd Sadwrn Medi 25ain

10 y bore – 6 yr hwyr

CWMBACH

Priodas

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Owen Robinson, Rhydcaernarfon ar ei briodas â Kitty Bray o Hampshire. Bu'r gwasanaeth yn Eglwys Llanwinio diwedd mis Gorffennaf yng ngofal y Parchedig Jeffrey Gainer, Meidrim a'r wledd briodas yn Broadway, Talacharn. Dymuniadau gorau iddynt yn eu cartref newydd yn Hendyŵyn.

TRELECH

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Mary Thomas, Trewen (Blaengilfach gynt) ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar. Pob dymuniad da iddi.

Penblwydd hapus yn 30 oed yn ddiweddar, i Jane Howells, 2 Caerwenog.

Llongyfarchiadau mawr i Buddug Howells a Sam Williams, Lodge ar enedigaeth mab bach, Morgan Guto ym mis Awst.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da hefyd i Gemma Rogers a Kevin Bowen, Barley Mow ar enedigaeth merch fach -Erin Glain y mis yma.

Llongyfarchiadau i Ceris James, Rhos y Gawnen ar ennill gradd BSc mewn Gwyddorau Meddygol. Pob dymuniad da iddi.

Croeso adre i Mrs Bessie Bowen, sydd wedi dychwelyd adref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty yn dilyn cwmp adref.

Pob lwc i rai o ieuentid yr ardal sydd yn dechrau cwrs coleg, addysg bellach neu brentisiaeth y mis hwn.

Pob lwc i Nerys Davies, Lodge, ar ei thaith beicio noddedig. Mae'n beicio o'i chartref yn Tignes, Ffrainc yr holl ffordd nôl i'w chartref yn Lodge, Trelech (pellter o 1550km) gan godi arian at elusen Calon Screening.

Bedydd



Bedyddiwyd Lewis Rhys Horn yn Eglwys San Twrog, Llanddarog gan y Parchedig Jean Voyle Williams ym mis Gorffennaf. Mae Lewis yn fab i Dr Chris a Llinos Horn ac yn ŵyr i Mrs Maureen Rees, Blaendewi Fach a Dr a Mrs Andrew Horn, Caerwrangon. Bedyddiwyd Lewis yng ngwisg fedydd draddodiadol teulu'r Horns ac mae'r wisg ei hun dros gant oed a Lewis bach yn bedwaredd genhedlaeth i'w gwisgo ar ôl ei ddau frawd Oliver a Charlie.

Tignes i'r Tŷ!



Nerys Davies - gynt o Lodge, Trelech

Gyda'r Llywodraeth wedi llacio'r rheolau ar gyfer teithio rhwng Ffrainc a'r Deyrnas Unedig bydd Nerys Davies (Lodge, Trelech) yn parhau gyda threfniadau her Siwrne Beicio o Tignes i'r Tŷ.

Mae Nerys yn wreiddiol o Drelech, ond erbyn hyn yn byw yn Tignes, Ffrainc ers 9 mlynedd. Tref fach yw Tignes (neu bentref mawr) yn yr Alpiau ac mae'n un o'r ardaloedd sgïo mwyaf ac uchelaf yn Ffrainc. Mae'r bobl leol yn dueddol o sgïo drwy'r gaeaf ac yn cerdded (a beicio) drwy'r Haf!

Yr her fydd seiclo 1,560km (bron 1000 milltir) o Tignes, yn Ne-Ddwyrain Ffrainc, i Drelech, ger Caerfyrddin. Mae Nerys wedi gwneud y siwrne droeon i weld teulu a ffrindiau, ond byth ar gefn beic! Bydd y daith seiclo yn para am 10 diwrnod, gyda chyfartaledd o 150km bob dydd, i gyrraedd nôl gartref yn Lodge, Trelech ar Ddydd Sadwrn, 18 Medi 2021.

Bydd y daith yn cychwyn ar uchder o 2,100m (6889 troedfedd)! Yna lawr at lyn godidog Annecy, cyn teithio drwy gefn gwlad Ffrainc i Baris. Wedyn, amdani tuag at y gogledd i Calais er mwyn croesi'r sianel i Dover. Erbyn hynny, gyda'r diwedd mewn golwg, anelu at Lundain fawr a'r hen Bont Hafren, cyn dod yn ôl i seiclo ar dir Cymru, gyda rhyw 250km i fynd, cyn cyrraedd 'gatre gatre'! Wrth edrych ar y daith yn ei gyfanrwydd, bydd dyrchafiad o 11,890m (39,009 troedfedd) ar hyd y siwrne!

Mae Nerys wedi penderfynu manteisio ar y cyfle

yma i gasglu arian i'r elusen Calon Heart Screening and Defibrillators. Mae'r elusen yn gwella argaeledd diffibrilwyr, gyda'r nod o achub bywydau ar draws Cymru. Maent hefyd yn darparu addysg CPR a hyfforddiant defnyddio diffibrilwyr i'r cyhoedd am ddim.

9,000! Dyna'r nifer o bobol sy'n marw o afiechyd cardiofasgiwlar bob blwyddyn yng Nghymru - cyfartaledd o 25 person bob dydd! Nod elusen Calon Screening yw lleihau'r niferoedd sy'n marw'n annisgwyl, fel bod dim rhaid i fwy o deuluoedd golli rhywun agos o gyflwr y gallai fod wedi ei ddarganfod a'i reoli. Gobaith Nerys yw casglu digon o arian er mwyn cynnal diwrnod o sgrinio (yn lleol) er mwyn darganfod abnormaleddau ac osgoi dioddefaint yn y dyfodol.

Meddai Nerys: 'Fel rhywun sydd wedi colli tad ar ôl trawiad ar y galon yn 57 oed, dwi'n annog pobol i gael prawf i ganfod y llofrudd cudd. Rydym yn ffodus i gael diffibriliwr yn eithaf agos, sy'n holl bwysig, gan roi'r cyfle i ddioddefwr sy'n aros am ambiwlans oroesi trawiad. Yn anffodus i ni, bu'r ymdrechion hyn yn ofer'.

Mae 'na gyfle i eraill osgoi colli rhywun drwy fanteisio ar waith ardderchog Calon Screening. Er mwyn cynnal diwrnod o sgrinio yng Nghaerfyrddin, y bwriad yw casglu £7,500. Serch hynny, ta waeth y swm terfynol, gall bawb wneud gwahaniaeth drwy fod yn barod am unrhyw sefyllfa a bod yn hyderus i wneud CPR neu ddefnyddio diffibriliwr.

I ddilyn y daith ar Instagram dilynwch @tignesirty ac i noddi ewch i'r wefan: <https://cy.tignesirty.com/follow-me>. Bydd pob cyfraniad yn cael ei werthfawrogi ac yn gefnogaeth fawr i drigolion a theuluoedd yn yr ardal leol.

LLANBOIDY

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Hywel a Cynthia Phillips, Plas-y-Bwci ar ddathlu eu Priodas Ruddem ddiwedd Gorffennaf.

...hefyd llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Ronnie a Mair Morgan ar ddathlu 65 mlynedd o fywyd priodasol ar Awst 26ain.

Cydymdeimlwn â Meredydd Richards (sydd nawr yn byw yn Llanboidy) ar farwolaeth ei ferch, Beca o ganlyniad i ddamwain car erchyll.

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN

Canolfan atgyweirio ceir



Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts a.y.y.b

Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygywyn ar Daf

01994 240230 / 07972 725193

SIOP SIAN CRYMYCH



Crefftau Cymreig
Gemwaith Rhiannon
Crisial Brenhinol Cymru
Crefftau Lleol
Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau
Crymch, SA41 3QF
FFôn: 01239 831230

GAREJ WYN CYF

Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymch, Sir Benfro
SA41 3RG

MOT
Gwasanaeth • Atgyweirio
Teiars • Batris

Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

Penblwydd Hapus i Freddie Scourfield, Penback gynt, ar ddathlu ei benblwydd yn 90 oed yn ystod mis Medi.

Trinity



Ar ôl bod ar gau am amser maith oherwydd Covid-19, braf oedd dod at ein gilydd i oedfa ar Sul, Medi 5ed o dan arweiniad y gweinidog, Y Parchg Guto Llywelyn.

Parti yn y Parc



Cynhaliwyd Parti yn y Parc gyda Siani Sionc dan nawdd Menter Gorllewin Sir Gâr a Menter Iaith Sir Benfro ym Mharc Hamdden a Natur, Llanboidy ar Awst 25 ain. Daeth nifer dda ynghyd a chafodd y plant llawer o hwyl yng nghwmni Siani Sionc. Daeth siop Llawn Cariad, San Cler â stondin hefyd. Trefnwyd ar y cyd gyda Chyngor Cymuned Llanboidy.

NEWYDDION BLAENCONIN

NEWYDDION DA

Mae Gilbert Rees yn cryfhau o ddydd i ddydd – newyddion da. Dymunwn yn dda i'r ddau ohonynt, Gilbert a Lois, ar ddechrau'r cyfnod newydd.

OEDFA GYMUN

Daeth yr aelodau ynghyd ar Fedi'r 12fed i drafod y ffordd ymlaen yn wyneb y pandemig. Rhaid canmol doethineb yr aelodau er gwaethaf y pwysau mawr sydd arnynt i gydymffurfio !

BEDYDDIO YN Y GELLI

Gwelwyd tyrfa fawr o bobol ar lan yr afon Syfnwy ar y Sul cyntaf o Fedi a hynny i dystio i gyfarfod pwysig a chofiadwy.

Roedd aelodau Siloam, Gelli wedi trefnu oedfa fedydd a daeth pedwar ymlaen i'w bedyddio gan weinidog Blaenconin – y fam yn dal i ofalu am y ferch !

Braf oedd gweld rhai o aelodau Blaenconin a Ffynnon yn bresennol.

Daeth **PEDWAR** ymlaen i'w bedyddio ond ... ar ddiwedd yr Ordinhad ... daeth un bachgen ifanc allan o'r dorf i gyflwyno ei hunan i'r Iesu – ac aeth y **PEDWAR ... yn BUMP ! HALELIWIA !!!**

Derbyniwyd y **PUMP** ohonynt yn aelodau o Eglwys Siloam, y Gelli mewn oedfa Gymundeb ar lan yr afon.



Boed bendith ar Natalie, Serena, Loretta, Ainsley a Jenkin ac ar yr Eglwys yn Siloam.

MEWN CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad i Hilary Watkins yn dilyn marwolaeth ei brawd, Keith, yn ddiweddar.

Mae Keith wedi symud o'r ardal er blynyddoedd lawer ond mae'r berthynas deuluol yn dal i fod yn agos.

CLADDU LLUDW

Cynhelir oeda fer yn y fynwent am 2.30 y prynhawn ar Fedi'r 24ain gyda'r bwriad o gladdu gweddillion y chwaer annwyl Mair Phillips, Hendy-gwyn – 'Mair Eithinmaen'. Bu Mair yn aelod ffyddlon ac yn gyfaill da. Coffa da amdani.

CYMDEITHAS CAPELI BRO HYWEL DDA

Aeth rhai o aelodau'r Eglwys ar daith gerdded ar Fedi'r 11eg o amgylch Mynachlogddu yn enw'r gymdeithas uchod.

Bydd angen cyflwyno'ch arian nawdd yn ystod mis Hydref.

Beirdd Blaenconin

Er gwaetha'r cyfyngiadau, mae Beirdd Blaenconin wedi bod yn brysur.

Colli ffydd hen wlad ein tadau,
Colli'r balm i'n flin eneidiau ;
Colli'r Gair a cholli'r geiriau,
Ac yn eu lle cael bratiaith frau.

Colli gwlith yr hen Gymanfa,
Colli hwyl y gymdeithasfa ;
Colli'r Bwrdd a cholli'r Bara,
Ac yn eu lle oer galon iâ.

Colli nawdd a cholli'r nodyn,
Colli'r dôn a cholli'r delyn ;
Colli llais a cholli'r llyfryn,
Ac yn eu lle gobeithion prin.

Colli Crist yw colli crefydd,
Colli'r ffordd yw ffeindio'r ffosydd ;
Colli Duw - llofruddio'n llywydd -
Ac yn eu lle gweld colli Ffydd.

Canlyn Crist, ein cyfaill, heddiw,
Canlyn Crist y Ceidwad clodwiw ;
Canlyn Crist - diddymu'r ddiryw,
A chanlyn Crist yw canfod Duw.

NEWYDDION o'r FFYNNON

Oedfaon yn y Ffynnon

Mae presenoldeb COVID-19 yn y gymuned yn dal i greu gofid a'r aelodau yn awyddus i droedio'n ofalus cyn agor y drysau unwaith eto. Gyda niferoedd y rhai sy'n dal y feirws yn yr ardal yn codi o ddydd i ddydd, mae'r aelodau wedi penderfynu cadw'r drws ar gau ... am nawr. Doethineb.

Trefangor

Diolch i Richard am ei lafur yn Nhrefangor ac o amgylch y Capel. Llwyddodd i gadw trefn ar yr Ardd Gladdu. Mae wedi addo cadw golwg ar y tir yn ystod yr Hydref.

LLANDYSILIO

Penblwydd

Penblwydd hapus i Victoria Hammesley Beanie a oedd yn 40 oed ar 28ain o Orffennaf.

....hefyd i Cheryl Davies yn 60 oed ar 30ain o Orffennaf.

....hefyd i Catrin Jones, Nyth Ni, yn 30 oed ar yr 2ail o Fedi.

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau mawr i Carolyn a Paul Jenkins ar ddathlu eu Priodas Berl, sef 30 o flynyddoedd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Paul Jenkins a'r teulu ar golli mam Paul, sef June Jenkins o Hendygywyn.

....hefyd â theulu Les Llewellyn, sef ei briod Noreen a'r plant. Alison, Amanda, Barry a Joanne a'u teuluoedd; Beryl a Carol ei chwiorydd; Peter a Roy ei frodyr; Rhoswen, Joy, Annette, Nelda, Roger, Janet ac Elwyn chwiorydd a brodyr yngnghyfraith.

....hefyd â Haulwen Pridmore, Garthowen a'r meibion Ben a Sion ar golli gŵr a thad sef Gari.

....hefyd â theulu Ron Narbett ar ei farwolaeth hefyd.

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau mawr hefyd i Sion Pridmore ar raddio gyda Anrhydedd Dosbarth 1af yn Astudiaethau Busness a Rheolaeth a Rheoli Adnoddau Dynol o Brifysgol Metropolitan Caerdydd.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i holl blant a phobl ifanc y pentref sydd wedi llwyddo yn ei haroliadau eleni, mewn amser heriol iawn. Da iawn chi a phob lwc yn y dyfodol.

Cylch Ti a Fi Llandysilio

Mae'r Cylch Ti a Fi wedi ail agor ar ôl seibiant dros gwyliu'r Haf. I blant 0-4 oed a rhieni/gwarchodwyr. Bore Mercher, 10.00-12.00yb. £3.00 y sesiwn yn neuadd Llandysilio.

Cylch Meithrin Llandysilio

Pob lwc i Lili-Mai a Jacob sydd wedi ein gadael i fynd i Ysgol Brynconin. Hefyd croeso i Joey, Arfon, Arwel, Peter a William.

Addysg Gymraeg i Blant 2-4 oed yn Neuadd Llandysilio Bore Llun, Mawrth, Iau a Gwener 9.00 tan 12.00yb

Am fwy o fanylion am y Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi cysylltwch â Delyth Roblin ar 07882 639867

FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU, PVC
YSTAFELLOEDD GWYDR
A GWTERI
TY GWYN, LLANDYSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587

Caffi Beca
Robert James
Efailwen, Clunderwen
01994 419735
Ar agor am frecwast, cinio, te a swper.
Ystafell ychwanegol i eistedd 70
ar gyfer bob achlysur.

CLUNDERWEN

Llongyfarchiadau i Zoe a Paul ar enedigaeth merch fach, Edie Efa Phillips. Wyres gyntaf i Terry a Gail Morris, Parc y Deri a gor-wyres i Kathy Phillips, Central a Betty ac Albert Thomas, Bro Waldo.

....hefyd i Dan ac Alison Thomas, Myrtle, ar enedigaeth merch fach, Nansi Gwen. Wyres newydd i Alan Jones a'r diweddar Bronwen a Margaret Thomas, Ffynnon-brodyr gynt, a'r diweddar Ernie.

Dymuniadau gorau i Gilbert a Lois Rees ar ôl symud o Masons Row i Brynhyfryd gan ddymuno gwell iechyd i'r dyfodol.

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Haulwen (Llaeth) Thomas, Maeshyfyd, ar ôl cwymp yn ddiweddar a torri ei choes.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Hilary Watkins, Ty'r Iet, ar farwolaeth ei brawd, sef Keith Evans, gynt o Bron y Glyn, Llandysilio. Bu Keith yn byw yn Dorset ers blynyddoedd gyda'i wraig Elen (Glantaf Isaf) a'u meibion.

Priodas Dda



Llongyfarchiadau a priodas dda i Hannah Thomas-Barrah, merch Mike a Meinir, Pantyffynon, Jones Terrace a Dominic Landragin, mab Paul a Nicola a briodwyd yn ystod yr Haf.

MEIDRIM

Oedfa Ordeinio Emyr Williams



Fel llawer o bethau a digwyddiadau eraill mae oedfaon arbennig wedi ei gohirio yn ystod y 18 mis diwethaf. Am y tro cyntaf ers dechrau y pandemig, cyfarfu Sasiwn y De o Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Llanddarog ar ddydd Iau, Gorffennaf y 29ain. Roedd cyfarfod busnes yn y prynhawn ac yna oedfa Ordeinio yn y nos. Dim ond 15 oedd yn yr adeilad a dros gant yn ymuno dros Zoom. Diolch am y fath dechnoleg dros yr adeg hynod yma.

Ordeiniwyd Emyr Williams i'r weinidogaeth yn ystod yr oedfa.

Yn cymryd rhan oedd Cliff Williams (Llywydd) Tony Platt (Ysgrifennydd) Rosa Hunt (Coleg y Bedyddwyr Caerdydd), Ian Sims (Cyn Lywydd), Lloyd Thomas (Henaduriaeth Myrddin), Marcus Robinson (Llywydd y Gymanfa Gyffredinol) Evan Morgan, (Darpar Lywydd y Gymanfa Gyffredinol) a Meirion Morris (Ysgrifennydd Cyffredinol EBC).



Hefyd yn bresennol yn yr oedfa roedd Eleri, Dafydd a Siôn.

Er fod Emyr wedi bod yn gofalu am yr ofalaeth ers 1af o Fedi 2020 gob-eithir y daw cyfle yn fuan

i gael oedfa sefydlu yng ngofalaeth y Gwendraeth.

GWYDRIADAU DWBL G.N.E. •DOUBLE GLAZING• TAI GWYDR LANDERI A FFASGIAU UPVC GWYDRIADAU EILAIDD BLYNYDDOEDD O BROFIAD GWAITH O SAFON UCHEL Ffôn: 01994 240688 Mobile: 07774 788349	FFENESTRI DRYSAU  Gareth Edwards Derwyn Gerddi'r Ffynnon Hendygywyn ar Dâf
--	---

AM Y DEWIS GORAU GALWCH HEIBIO SIOP Y PENTAN Y Farchnad, Caerfyrddin Anrhegion Cyfoes Cymraeg Llyfrau Cymraeg CD's Cardiau Cyfarch a llawer mwy Ffôn: 01267 235044
--

 Fferyllfa Clunderwen GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL  Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni Ffôn: 01437 563228 Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP
--



YSGOL BANCYFELIN

Gwerthfawrogi blynyddoedd o wasanaeth staff Ymdeoliad

Ar ddiwedd tymor yr Haf roedd yn ddiwedd cyfnod yn Ysgol Bancyfelin, gydag ymdeoliad Mrs Nesta Howells, fel cogyddes yr Ysgol ar ôl bron i 40 mlynedd o wasanaeth i'r ysgol a Mr a Mrs Terry a Merle Jones ar ôl dros 21 mlynedd fel gofawyr a glanhawyr. Diolch i'r tri am eu gwasanaeth teyrngar ar hyd y blynyddoedd a dymuniadau gorau am ymdeoliad hir a hapus.



Rhai o ddisgyblion yr ysgol yn cyflwyno tysteb a rhoddion i Nesta yn dilyn ei hymdeoliad.



Merle a Terry Jones yng nghwmni rhai o blant yr ysgol wedi iddynt dderbyn tysteb a rhoddion ar achlysur eu hymdeoliad.

Blwyddyn 6



Pob lwc i Flwyddyn 6 sydd wedi ein gadael ar ddiwedd y tymor a dymuniadau gorau i chi yn eich hysgolion Newydd.

Diwrnod Hwyl



Cynhaliwyd diwrnod o hwyl i'r disgyblion ddydd Gwen-er Gorffennaf 9fed a bu dau ymwelydd pwysig gyda ni yn

cynnal gweithgareddau sef Siani Sionc a Gethin Page o'r Urdd. Diolch yn fawr iawn iddynt am ymweld â ni.

Diolch

Dymuna Nesta ddiolch o galon i bawb am y cardiau, anrhegion a hefyd am y rhodd ariannol a dderbyniodd yn dilyn ei ymddeoliad o Ysgol Bamcyfelin. Diolch yn fawr i bawb.

YSGOL BRO BRYNACH

Croeso i ddisgyblion newydd i ddosbarth Lliwe sef Cooper, Florence, Macsen, Benjamin a Ryan.

Hoffwn hefyd groesawu Liz Llewelyn i'r ysgol.

Pob hwyl i Miss Sioned Llewelyn wrth iddi barhau gyda'i gyrfa mewn sioe Nadolig yn Llundain a Norfolk.

Yn ystod y mis fe fydd Clwb Gofal newydd 'Clwb y Cadno' yn agor i ddisgyblion yr ysgol ar bob nos Fercher. Bydd y clwb yn rhedeg o 3:15yp i 5:30yp. Mwy o fanylion a dyddiad cychwyn i'w rhannu cyn hir.

Thema y tymor yma yw Agor Drysau Bydysawd..., edrychwn ymlaen i glywed a datblygu syniadau y disgyblion.

YSGOL GRIFFITH JONES

Croeso

Ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd, croesawyd 15 o blant newydd i'r ysgol. Gobeithio y byddant yn ymgartrefu'n gyflym gyda ni. Pleser hefyd yw medru croesawu aelod newydd o staff atom i addysgu Blwyddyn 3 sef Miss Carys Evans. Pob dymuniad da iddi fel aelod o deulu Griffith Jones.

Siarter Iaith



ein hymdrech i weithio tuag at wobwr aur y Siarter iaith yn parhau eleni.

Ar ddiwedd y flwyddyn ysgol yng Ngorffennaf, dathlwyd yr ymdrech a wnaethpwyd gan lawer o'n disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg o gwmpas yr ysgol. Cyflwynwyd tystysgrifau i'r plant a lwyddodd i gasglu'r cyfanswm mwayf o docynnau iaith yn ystod y flwyddyn. Bydd



Cerddoriaeth



Llongyfarchiadau i Naomi Miller o Ddobarth Myrddin am lwyddo yn ei arholiad Gradd 4 ar y Corn Bariton yn ystod yr Haf. Tipyn o gamp!

Ffarwelio

Ffarwelwyd ag aelod o'n staff CPA ni ar ddiwedd tymor yr Haf sef Mrs Leisa Scourfield. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn iddi am ei holl waith ac am ei chyfraniad i fywyd yr ysgol. Dymunwn bob hapusrwydd iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol Bryn Saron.



YSGOL DYFFRYN TAF



Y Goeden Erasmus

Ar ddydd Mercher, Gorffennaf 14eg, dador-chuddiodd Dr Hywel Ceri Jones gerflun o'r enw 'Y Goeden Erasmus' gan Mr David Peterson yn Ysgol Dyffryn Taf. Mae Mr Petersen yn gerflunydd ac artist lleol a chwaraeodd Dr Jones y brif ran wrth ddylunio, negodi a rheoli sawl rhaglen flaenllaw yn yr UE, yn benodol Erasmus (rhaglen cyfnewid ieuenctid yr UE).

Mae Ysgol Dyffryn Taf wedi ei chysylltu ag ysgolion yn y Ffindir, Portiwgal, Melilla a La Reunion ers 2016 trwy'r rhaglen Erasmus+. Roedd myfyrwyr Erasmus yn Nyffryn Taf am weithio gyda Mr Petersen i greu canolbwynt ar gyfer tir yr ysgol ar gyfer eu prosiect presennol. Un a fyddai'n ysgogi'r meddwl, wrth glymu i mewn ag egwyddorion eu prosiect 'Tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy'.

Nod y cerflun hwn yw canolbwyntio ar holl agweddau cadarnhaol a negyddol cymdeithas. Ei nod yw dangos i fyfyrwyr eu bod, trwy rannu gwerthoedd craidd a chydweithio, yn gallu llwyddo. Mae hyn yn ymgorffori athroniaeth rhaglen Erasmus +. Gan ddefnyddio geiriau yn Saesneg a Chymraeg a thrwy ymgorffori symbolau sy'n dynodi da (yn y canghennau a'r dail) a drwg (yn y gwreiddiau a'r boncyff) mae'r cerflun yn adlewyrchu syniadau'r myfyrwyr. Mae'r dyluniad hefyd yn ailgylchu metel sgrap yn unol ag egwyddorion SDG12 Defnydd a Chynhyrchu Cyfrifol. Mae'r dail wedi'u paentio'n wyrdd ar un ochr i symboleiddio'r Gwanwyn ac ailgychwyn y tymhorau ac efydd yr ochr arall ar gyfer yr Hydref a diwedd y rhaglen Erasmus+. Ond gydag addewid Cynulliad Cymru i ariannu cyfnewidiadau yn y dyfodol, dros y blynyddoedd nesaf, mae'r Hydref bellach yn ildio ar gyfer Gwanwy-noedd newydd yn y dyfodol.

Roedd ardal y cerflun wedi cael ei thanddefnyddio ychydig dros y blynyddoedd, felly mae myfyrwyr ym Mlwyddyn 12 wedi bod yn brysur yn trawsnewid yr ardal, i sicrhau bod 'Yr Ardd' bellach yn ofod hardd sy'n deilwng o gynnal y cerflun. Bydd y gofod nawr yn cael ei ddefnyddio fel gardd weithiol, man addysgu awyr agored a man myfyrio i fyfyrwyr yn ystod amser egwyl a chinio.



Y Teulu Erasmus (The Erasmus Family) – Disgyblion Erasmus Dyffryn Taf yn y cefn (Bl 11 a Bl 12), o'r chwith i'r dde Mr Gareth Morgans (Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Caerfyrddin), Mr David Peterson (Cerflunydd), Dr Hywel Ceri Jones (Datblygwr Arweiniol y Rhaglen Erasmus), Mr Julian Kennedy (Pennaeth) a Mr Phillips (Rheolwr Safle).



Y Goeden Erasmus – llun o'r cerflun



Thema – llun o'r plac



**Login
Hendygywn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk**



Croeso i'n dewis o wibdeithiau, gwibdeithiau theatr, gwyliau byr a gwyliau ar gyfer 2021/2022
Mae rhywbeth at ddant pawb. Gofynnwch am gopi o'n pamffled neu ewch ar-lein am fanylion llawn.
Mae'r tîm yma yn Jones Logyn yn edrych ymlaen at eich croesawu yn ôl ar fwrdd yn 2021 a thu hwnt.



Gellir trefnu Mordeithiau Fred Olsen ar eich rhan. Mae argaeledd a phrisiau ar gais a byddent yn cynnwys trosglwyddiadau o drws i ddrws ac o'r porthladd. Ewch i:
www.fredolsencruises.com



Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!

DYSGWR Y FLWYDDYN YN EISTEDDFOD AMGEN 2021



Llongyfarchiadau mawr i David Thomas, cyd berchennog cwmni Jin Talog am ennill teitl Dysgwr y Flwyddyn. Cafodd ei anrhydeddu yn Eisteddfod AmGen 2021 yng Nghaerdydd. Yn y brifddinas y cafodd David ei eni a'i fagu. Ond ar ôl treulio blynyddoedd yn

gweithio yn Llundain a chael gyrfa lwyddiannus yno, fe symudodd gyda'i ŵr Anthony i Dalog ym Mhasg 2016, a sefydlu Jin Talog.

"Ffeindion ni'r lle drwy ddamwain" eglura David Pan gyrhaeddodd ni Dalog, on i ddim 'di clywed am y lle o'r blaen, ac odd y pentre mor glud a hyfryd. A phan gyrhaeddodd ni'r tŷ a'r buarth, wel odd e'n hyfryd. A dywedais i wrth Anthony yn syth, "wel mae'n rhaid i ni brynu'r tŷ yma", achos rodd e'n unigryw. Hefyd ro'n i mo'yn symud i gefn gwlad. Roedd Anthony wedi ei fagu ar fferm ger Llanelli. "Ond 'townie' o'n i, felly roedd e chydig bach o 'culture shock' ar y dechre".

Un o'r prif resymau dros benderfyniad David i gefnu ar yrfa lwyddiannus yn y byd corfforaethol yn Llundain oedd yr ysfa i fyw mewn cymuned Gymraeg. Mae David yn disgrifio'i hun fel un o'r "genhedlaeth goll" na chafodd y cyfle i ddysgu'r Gymraeg yn ei fro enedigol yng Nghaerdydd.

"Y cynllun oedd i fod yn rhan o gymuned." meddai.

"O'n i'n gwybod fod cymunedau cryfion yn bodoli yn yr ardal hon, yng ngorllewin Sir Gaerfyrddin. Odd cymryd rhan mewn digwyddiadau yn neuadd y pentref yn bwysig i fi, a dod i adnabod y cymdegen, a chael y cyfle i gyfathrebu yn y Gymraeg."

Ac mae David yn hynod ddiolchgar i'w gymdegenion am yr holl gymorth a chefnogaeth.

"Mae'n nhw wedi bod yn anhygoel. Achos ar y pryd, pan symudon ni yma, dim ond newydd ddechrau dysgu'r Gymraeg oeddwn i, ac roedd pobl mor amyneddgar a chefnogol"

Mae'r Gymraeg yn gwbwl ganolog ym musnes Jin Talog. Ar y poteli, fe welir y disgrifiad canlynol

*Gwnaed yn Sir Gâr â dŵr ffynnon glir
O ffrwyth y ferywen a daioni'r tir
Dim telynau, dim cennin
Dim dreigiau prin
Dim ond diod anhygoel o'r enw Jin*

Ac mae David yn credu fod sefydlu'r busnes jin wedi bod o gymorth mawr wrth iddo fynd ati i ddysgu'r iaith.

"Pan ddechreuon ni'r busnes, o'n i'n benderfynol o flaenoriaethu'r iaith. O'n i mo'yn creu busnes gyda hunaniaith Gymreig, ond hefyd neud popeth yn iawn. Mae llawer o fusnesau

ddim yn rhoi parch i'r iaith. Ond ro'n i mo'yn popeth yn ddwyieithog, ac ar y wefan hefyd, ac ro'n i mo'yn cyfathrebu gyda chwsmeriaid yn Gymraeg. Rhywbeth arall sy'n bwysig i fi yw bod pobl Cymru yn haeddu cael eu gwasanaethu trwy'r Gymraeg"

Ac mae angerdd David tuag at y Gymraeg a'i bryderon am ei dyfodol hi yn amlwg.

"Yn ddiweddar cwrddais â rhywun oedd newydd symud i bentre Penybont." meddai.

"A gofynnais iddyn nhw pam y symudon nhw yma. A dywedon nhw - mae'r tai yn rhad yma. Dywedais wrthyn nhw eu bod wedi symud i'r Fro Gymraeg ac y dylien nhw ystyried dysgu'r iaith. Ond dywedon nhw y bydde hynny yn rhy anodd iddyn nhw. Yr un hen stori, ac mae hyn yn achos pryder mawr i fi, yn enwedig gan



OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelldre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

G & S Llewellyn a'i Mab

Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clynderwen. SA66 7TX
Ffôn: 01437 563320

Olew Oil
Trefigin
est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD Tŷ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW
HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol,
teuluol, lleol, Cymraeg
881630 www.trefigin.cymru 881282

fod prisiau tai wedi codi gymaint yng Nghymru, ac yn enwedig yn Sir Gaerfyrddin.

I David, doedd dim dewis pan ddychwelodd i Gymru, "Fel Cymro, y peth amlwg i 'neud pan symudais i nôl i Gymru odd dysgu'r iaith. Ac ro'n i mo'yn dangos i bobol yr ardal mod i'n Gymro i'r carn ac yn parchu'r iaith"

"Ond nawr, ma ton o bobl yn symud i mewn i'r ardal heb unrhyw synnwyr o ddiwylliant yr ardal a'r hanes, a ma' nhw'n colli mas. Mae'r iaith Gymraeg yn docyn mynediad i ddiwylliant Cymru a dyna rydw i wedi ei ddarganfod ers dysgu'r iaith. Mae dyletswydd ar bobl sy'n symud yma i ddysgu'r iaith "

Mae ennill Dysgwyr Y Flwyddyn yn golygu popeth i David.

"Dwi ffael credu mod i wedi ennill, roedd eraill yn haeddu ennill hefyd. " meddai.

"Dwi'n dal i ddysgu, a dwi'n dychwelyd at y cyrsiau fis Medi. 'Dw i di bod yn llwyddiannus yn fy mywyd ac yn fy ngyrfa ond 'dw i 'di newid wrth ddysgu'r iaith. Mae'n golygu cymaint i fi."

Fel cymuned, rydym yn ffodus iawn fod David ac Anthony wedi symud i Orllewin Sir Gaerfyrddin. Ac mae ymdrechion David a'i angerdd tuag at y Gymraeg yn amhrisiadwy. Llongyfarchiadau mawr iddo. Bydd yn llysgennad rhagorol dros y Gymraeg, a thros yr ardal hon.

Iola Wyn

Cornel Garddio gan W John Davies

Rwy'n eistedd lawr i ysgrifennu ar ddydd Sadwrn olaf o Awst. Mae'n grasboeth heddiw ar ôl mis braidd yn gymylog a gwlyb, a diolch am hynny. Eleni rwyf wedi tyfu pamed bach o banas - cafodd yr hadau eu plannu yn ddiweddar ym mis Mai a maent wedi tyfu yn rhyfeddol o dda. Wythnos yma sylwais fod un banasen yn dechrau datblygu hadau llawer cynt na'r arfer ac felly yn troi yn sur eu blas. Mae hyn wedi digwydd oherwydd y sychder, felly mae'n bwysig dyfrhau pob llysieuyn yn aml er mwyn osgoi colledion, am fod popeth sydd yn tyfu yn naturiol, am gynhyrchu hâd cyn giwio. Mae hadau'r banasen fel arfer yn cael eu hau yn weddol gynnar ym mis Ebrill, ac yn cymryd un ar ugain diwrnod i egino, ond oherwydd fy mod tipyn hwyrach eleni, a'r ddaear wedi twymo tipyn mwy, dim ond pymtheg dydd cymerwyd tro yma. Mae'n

ofnadwy o bwysig bod yr hadau ddim yn sychu allan cyn egino ac i wneud yn siwr o hyn, rwyf yn gorchuddio pob rhestr â stillen denau rhyw chwe modfedd o lêd. Mae nawr yn angenrheidiol i nodi'r diwrnod hau a chodi'r stillen i ffwrdd tri diwrnod cyn y disgwylir yr hadau egino.

Mae gennym ddrws a gwydr dwbwl a rhyw wyth troedfedd oddi wrtho, roedd gennyf focs yn llawn o flanhigion weddol ifanc. Un noswaith ar ôl diwrnod twym, fe sylwais eu bod wedi llosgi bant yn llwyr, a mawr oedd y pryder pan oedd hyn wedi digwydd. Nes ymlaen digwyddais eistedd ar stôl yn yr unig fan, a sylweddolais fod yr haul yn gryfach nag arfer a bron i mi losgi fy mraich, a hynny ar yr ochr bant o'r haul. Yna cyn hir sylweddolais fod gwydr dwbl yn adlewyrchu yr haul llawer cryfach na gwydr sengl - mae rhywbeth i'w ddysgu bob dydd er mor hen ydwyf !

Os yw'r lawnt yn tueddu fod ar yr ochr felyn, gellir ei lashau i fyny drwy ei wistrellu â hanner llwy de o 'Epsom Salts' wedi ei gymysgu mewn dwy alwyn o ddŵr. Chwis-trellwch hwn dros y porfa pedwar diwrnod cyn ei dorri drachefn, oherwydd trwy y dail a dim drwy'r gwreiddiau mae porfa yn cymeryd hyn mewn. Felly mae yn bwysig fod eisiau tyfiant pam wnewch hyn a thrwy wneud hyn, nawr ac yn y man, yr ydych yn gallu arbed torri'r lawnt cymaint a pum waith y flwyddyn o leiaf.

Canol Mis Awst eleni roedd yna ddrw mawr tu allan ein tŷ ni, ac fe welais restr o wenoliaid yn clwydo ar y wifren sy'n croesu'r heol gerllaw. Daeth yn amlwg i mi fod yr hen wenoliaid yn helpu y rhai ifanc i ddysgu hedfan ac yn cadw llygaid barcud arnynt. Yn sydyn dyma un o'r cywion yn mentro hedfan ac ar yr un eiliad dyma'r fam, neu'r tad, yn ei ddilyn trwy hedfan yn llawer cynt, codi lan o dan y cyw ac ei gario bant ar ei chefn. Hefyd, ar yr un eiliad dyma wylan yn screchian mewn tymer ofnadw - roedd y fam wedi gwarchod y cyw rhag marwolaeth sydyn. Aeth hyn ymlaen am amser weddol hir ond roedd y wenoliaid ar y wifren yn ddiogel, oherwydd ni allau'r wylan hedfan i ddwyn y cyw. Roedd yna ddwy wylan yn gwneud eu gorau glas i ddal y cywion a'u llyncu yn fyw, ond eu hymdrech yn ofer. Roedd y wennol yn amlwg yn dysgu y cyw i gymryd mantes o'r gwynt oedd yn codi wrth fynd dros ben y tŷ, ac yn wir, cyn pen wythnos daeth y gwynt o'r cyfeiriad cywir i'w cynorthwyo ar eu fordd nôl i ganol yr Afrig bell. Ni welais erioed sut gyfrwystrer, pob lwc iddynt oll, mae'n amlwg i mi fod bywyd gwyllt yn fywyd caled iawn.

H THOMAS a'i FAB

Peiriannydd Amaethyddol



Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law

Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion

TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr

Siop Radio a Theledu
CRYMYCH

Setiau ar werth

Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589



Aeres Williams
Hyfforddwraig Gyrru

Glandy Cross, Clunderwen

Ffôn: 01994 419711
Sumudol: 07969 501551

aeresannadi@hotmail.co.uk

Cyflwyno Sieciau Elusen Rotari Arberth a Hendygywn

Dydd Mercher, 18ed Awst 2021, cyfarfu Clwb Rotari Arberth a Hendygywn yng Nghlwb Rygbi Arberth i ddiolch i'r rhai a fu'n helpu yn eu sioe ysblennydd "Sunday Night Fever" yn ddiweddar, ac i gyflwyno sieciau i gefnogi gwaith parhaus Ymchwil Cancr Cymru a Ambiwylans Sant Ioan Cymru.

Cyflwynydd y noson ar ran Clwb Rotari Arberth a Hendygywn oedd John Hughes ynghyd â Chadeirydd Clwb Rygbi Arberth, Rob Lewis.

Codwyd £2400 a rhoddwyd rhodd o £800 i Ymchwil Cancr Cymru, a dderbyniwyd ar ei rhan gan Helen Davies. Bydd yr arian sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio gan Glwb Rotari Arberth a Hendygywn ynghyd â chlwb Rygbi Arberth i gefnogi achosion elusennol. Rhoddwyd rhodd arall o £300 o gronfa'r clwb i Ambiwylans Sant Ioan Cymru i gydnabod eu cefnogaeth gwerthfawr i'r digwyddiad.




Yn y lluniau mae Llywydd y Clwb Rotari, Elaine Bradbury, yn cyflwyno'r sieciau i Helen Davies o Ymchwil Cancr Cymru (chwith) ac i James Cordell, ynghyd â'i gydweithwyr Jo a Sam o Ambiwylans Sant Ioan.



Capel Bancyfelin



Mewn cyfnod o ofid ac ansicrwydd, testyn llawenydd mawr i aelodau Capel Bancyfelin oedd derbyn 6 o aelodau newydd i deulu'r eglwys yn yr oedfa Gymeun bawn Sul, 12 Medi. Estynnwn groeso cynnes iawn iddynt.



Y Cardi Bach

Huw Owens
Saer Coed

Dan y Coed
Glandy Cross
Efailwen
Clunderwen
SA66 7XA

Ffôn: 01994 419315
Symudol: 07974 801672

Gwaith To • Ceginau • Ffynestri • Gwaith atgyweirio... a y y b.

SHWLDIWMWL.CYMRU

**CRYSAU
WEDI
ARGRAFFU
A SIOP
AR-LEIN**

sales@shwldimwl.cymru 01994 448626

MARK JOHN
CIGYDD

Smithfield House
Stryd Sant Ioan
Hendygywn ar Daf

Ffôn: 01994240397

Diolch am eich cefnogaeth



O dan yr amgylchiadau presennol, mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn gweithio i ddarparu gweithgareddau a sesiynau i chi allu parhau i gymdeithasu a byw yn Gymraeg yn ddigidol ac wyneb yn wyneb yn unol â chyfarwyddiadau'r Llywodraeth parthed cyfyngiadau. Mae'r Fenter yn falch iawn o allu trefnu digwyddiadau yn ddiogel dros yr haf eleni ac yn gobeithio eich bod wedi mwynhau cymaint â ni!

Taith Fygi:

Rydym yn ail-gychwyn ar ein sesiynau teithiau bygi poblogaidd yn y dair ardal, sef Castell Newydd Emlyn ar ddydd Mawrth ar y 14eg ac 28ain o Fedi a'r 12fed o Hydref. Hendygywyn-ar-Daf ar ddydd Mercher y 15fed a'r 29ain o Fedi a'r 13eg o Hydref. Ac yng Nghaerfyrddin ar ddydd Gwener yr 17eg o Fedi a'r 1af a'r 15fed o Hydref. Mae'r teithiau yn ymgynnull am 10:15yb ac yn cychwyn am 10:30yb ym mhob ardal. Ymunwch â ni am gyfle i sgwrsio, gwneud ychydig o ymarfer corff ac am wâc hamddenol. Mae'n angenrheidiol i bawb gofrestru o flaen llaw. Cysylltwch gyda gwawr@mgsg.cymru i gofrestru.

NEWYDD! Sesiynau stori:

Rydym yn cychwyn sesiynau stori mewn tair ardal sef Caerfyrddin ar ddydd Llun yng Nghanolfan Chwarae Sgiliau ar yr 20fed o Fedi, 4ydd a 18fed o Hydref. Ym Mhont Tyweli ar ddydd Mawrth yn y Pwerdy ar yr 21ain o Fedi, 5ed a'r 19eg o Hydref. Ac yn San Clêr ar ddydd Mercher yn Y Gât ar yr 22ain o Fedi, 6ed ac 20fed o Hydref. Bydd y sesiynau yn cychwyn am 10:30yb ym mhob lleoliad. Ymunwch â ni mewn sesiwn stori ac ychydig o ganu. Mae'n angenrheidiol i bawb gofrestru o flaen llaw. Cysylltwch gyda gwawr@mgsg.cymru i gofrestru.

NEWYDD! Noson Shwmae a Siopa:

I ddathlu Diwrnod Shwmae Sumae ychydig yn wahanol eleni rydym yn trefnu noson Shwmae a Siopa yn Yr Atom, Caerfyrddin ar nos Wener y 15fed o Hydref o 5-7yh. Bydd cwmnïau lleol yr ardal yn bresennol gyda'u

stondinau. Bydd angen dewis blwch amser sef 5-6yh neu 6-7yh a chofrestru gyda ceris@mgsg.cymru

NEWYDD! Parti Pampro:

Edrychwn ymlaen at sesiwn rhithiol Parti Pampro ar yr 21ain o Hydref am 7:30yh. Cyfle i ddysgu sut i ymlacio ac edrych ar ôl y corff ac i ddysgu am ofal croen a hunan ofal yn eich trefn dyddiol. Bydd cyfle i holi cwestiynau hefyd. Bydd y sesiwn yma am ddim. I gofrestru cysylltwch gyda gwyneth@mgsg.cymru erbyn 13/10/21 er mwyn derbyn eich pecyn o gynnyrch o flaen llaw.

Coffi a Chlonc:

Mae'r sesiynau yma sydd wedi cael eu cynnal ers cychwyn y cyfnod clo yn parhau. Dyma gyfle i ddod ynghyd i sgwrsio a chymdeithasu dros baned bob bore dydd Iau am 10.30yb ar Zoom. Mae'r weithgaredd yma yn addas ar gyfer dysgwyr neu siaradwyr rhugl. I dderbyn y linc cysylltwch gyda ceris@mgsg.cymru.

Beicio Mynydd:

Mae'r Clwb Beicio Mynydd yn ôl! Croeso i flynyddoedd 6, 7 ac 8 i ymuno â'r clwb yn Byrgwm, Brechfa pob nos Iau o 5-7yh. Niferoedd cyfyngedig felly cysylltwch gydag alma@mgsg.cymru i gofrestru.

Clybiau Darllen:

Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn trefnu dau glwb darllen sy'n cwrdd unwaith y mis ar Zoom. Mae clwb darllen i oedolion yn cwrdd bob ail nos Fawrth y mis am 7yh a chlwb darllen i ddysgwyr yn cwrdd ar nos Fawrth olaf pob mis am 7yh. Dyma gyfle i ddod ynghyd i gymdeithasu a thrafod nofelau cyfoes. Am fwy o wybodaeth neu i gofrestru cysylltwch gyda ceris@mgsg.cymru

Cyfryngau Cymdeithasol:

Gyda'r cyfyngiadau yn newid o hyd, mae gwaith y Fenter yn newid gydag amryw o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu cynnal ar-lein. Am y diweddaraf, ewch i'n cyfryngau cymdeithasol:

Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar

Trydar - @MenterGSG

Instagram - @MenterGSG

E-bost - ceris@mgsg.cymru neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch gyda Ceris ar y ffôn: 07939 962042.

THOMAS ENGINEERING
PEIRIANNWYR AMAETHYDDOL
ARBENIGO MEWN TREILARS
Caerseli
Clunderwen
FFôn: 01437 563226

DAVID HARRIES & Co
CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street
Hendygywyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

J. B. OWEN
LLOGI PEIRIANNAU
Golygfa
Llandissilio
Ffôn: 01437 563693
07966 549623

Taith Gerdded Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda



Cynhaliwyd taith gerdded blynyddol y Gymdeithas ar fore Sadwrn, Medi 11eg gan ddechre a gorffen tu allan i gapel Bethel, Mynachlog-ddu. Croesawyd pawb ynghyd gan y Cadeirydd Eurfyl Lewis cyn i'r Parchedig Guto Llywelyn ein harwen mewn gweddi. Cawsom funud o dawelwch i gofio am y rhai a gollwyd yn yr ardal ac hefyd i gofio ugain mlynedd ers trychineb 9/11 yn Efrog Newydd.

Roedd yn hyfryd gweld pobol o bob oed - yn blant, ieuenctid ac oedolion yn ymuno ar y daith. Roedd pawb yn cadw o fewn pellter cymdeithasol ond yn gwerthfawrogi'r cyfle prin i gymdeithasu ymysg ein gilydd.

Meddygfa Rhiannon, Arberth; Banc Bwyd lleol (Trussell Trust) ac Ymchwil Cancr Cymru a fydd yn elwa o'r daith noddedig eleni ac hyderwn y byddant yn derbyn y gefnogaeth arferol.

Anfoner sicciau at y Trysorydd Mr Kevin Bowen, 18 Bryn Gorwel, Caerfyrddin, SA31 1SG. Hefyd derbynnir arian nawdd gan y Cadeirydd Eurfyl Lewis (07980 883924) neu gan yr Ysgrifenyddes Rosemarie Davies (01994 419355) erbyn y 24ain Hydref 2021.



Osian a Charlie yn cyrraedd Bethel

DARLITH FLYNYDDOL RHITHIOL WALDO

Teitl y ddarlith a draddodir yn rhithiol ar nos Wener, Medi'r 24ain am 6 o'r gloch fydd 'Helbul Hunan: Sgwrs am Farddoniaeth a Iechyd a Lles'. Ar darlithydd fydd y Prifardd Ceri Wyn Jones.



Crwt o Aberteifi yw Ceri Wyn Jones. Enillodd Gadair yr Eisteddfod Genedlaethol ddwywaith, ynghyd â'r Goron, ac ef yw'r Meuryn - cyflwynydd a beirniad - cyfres Y Talwrn ar BBC Radio Cymru. Bu'n Fardd Plant Cymru ac mae wedi cyhoeddi cyfrolau o gerddi i blant ac oedolion. Wedi dilyn gyrfa fel athro Saesneg ac wedyn fel golygydd llyfrau, mae bellach yn gweithio ar ei liwt ei hun fel awdur, darlledwr, golygydd a thiwtor ysgrifennu creadigol. Mae hefyd yn aelod o gôr Ar ôl Tri.

Trefnir y ddarlith hon ar y cyd gan Cymdeithas Waldo Williams a Choleg y Brifysgol, Aberystwyth ac yn hynny o beth mae'r Gymdeithas a'r Brifysgol wedi ffurfio partneriaeth barhaol gogyfer â threfnu'r darlithiau blynyddol a gweithgareddau eraill. Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

Gellir archebu tocyn am ddim trwy ddilyn y ddolen hon:

<https://tocyn.cymru/cy/event/ee9e6a79-20f5-4b27-aa00-af-696f359e13>

Ar fin cael ei chyhoeddi hefyd mae cyfrol yn dwyn y teitl 'Dilyn Waldo' gan Eirwyn George sy'n olrhain deng mlynedd o weithgaredd Cymdeithas Waldo.

Cymdeithas yr Hoelion Wyth yn anrhydeddu Dai Llanilar

Os ewch chi heibio i fferm Berthlwyd, Llanilar, fe sylwch fod yna blac atyniadol ar wal y cartref erbyn hyn. Ma hwn yn rodd arbennig gan Gymdeithas yr Hoelion Wyth i anrhydeddu yr annwyl Dai Jones, Llanilar. Gwyddom fod Dai bellach wedi ymddeol, wedi haner canrif o wasanaeth i'r cyfryngau. Mae'r geiriau ar y plac, sydd wedi eu llythrennu mewn aur ar gefndir glas tywyll, mor addas i ddisgrifio ei bersonoliaeth ffraeth, llawn hiwmor, wnaeth gyflawni diwrnod da o waith.

Plac urddasol i anrhydeddu person urddasol.

Gwladgarwr a thrysor cefn gwlad.

Canwr. Darlledwr. Diddanwr.



Diolch am weledigaeth Cymdeithas yr Hoelion Wyth i sicrhau fod hyn wedi ei gwblhau a diolch hefyd i Charles Arch, Eurfyl Lewis a John Watkin am ddwyn y maen (neu'n hytrach y plac) i'r wal. Anfonwn ein cofion anwylaf i Dai y dyddiau gan hyderu bydd e'n mwynhau gwell iechyd yn fuan.

Dyma englyn y Prifardd Idris Reynolds i gyfarch Dai.

Ar awyr yr awyr iach - yn ifanc
Cest lwyfan y llinach.
I ganu can amgenach
Hen ffordd o fyw ein ffridd fach.

Dyma englynion Wyn Owens i gyfarch Dai

Yn ôl daw Dai Llanilar - wedi'i waith
O deithio ein daear.
'Ar ei gais', amaethwr gwâr
A'i gân fel gwawr o gynnar.

Dai a'i ddawn fel diddanwr - â'n ei flaen,
Diflino'r darlledwr.
Cain ei sain, mae hynny'n siŵr,
Golud gwir pob gwladgarwr.

Ac o'i grwydro, gorau'r hydre - a wêl
Ar ei aelwyd, cartre'r
Diwydrwydd. Braf dod adre
I gefn gwlad ei alwad e.

Tir Dewi

Mae 'na lawer o ffermwyr a'u teuluoedd allan yna sy'n brwydro i ymdopi â'r pwysau a ddaw o redeg fferm. Nôl yn 2015, yn dilyn sgwrs rhwng y cyn Esgob Wyn a'r Hybarch Eileen Davies MBE, Archddiacon Ceredigion, mi ddaeth y ddau i'r ddealltwriaeth nad oedd digon o gefnogaeth ar gael i ffermwyr. Felly sefydlodd Eileen, (sydd hefyd yn rhedeg fferm ddefaid a godro gyda'i theulu) yr elusen, Tir Dewi. Dechreuodd fel elusen fechan yn cynnig cefnogaeth i bob ffermwr yn y tair sir yng Ngorllewin Cymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf, estynnwyd y gefnogaeth honno i Ogledd Cymru, Powys a Phenryn Gŵyr.

Hyd yn hyn, y mae gwirfoddolwyr Tir Dewi wedi helpu dros 300 o deuluoedd ffermio gydag amrywiaeth o faterion, problemau, gofidiau, heriau ac y mae'r nifer yn codi yn ddyddiol. Y mae Tir Dewi yn cynnig llinell gymorth gyfrinachol am ddim gyda'r dewis o drafod gyda rhywun yn Saesneg neu Gymraeg, 7 diwrnod yr wythnos o 7 yb tan 10 yb. Yr ydym hefyd yn cynnig cymorth wyneb yn wyneb.

Mae pawb yn ymwybodol fod gweithio mewn amaethyddiaeth yn gallu bod yn ofnadwy o anodd. Mae'n gallu bod yn unig, gyda phwysau gwaith aruthrol, ac mae'r ffermwr yn aml yn gorfod cario'r pwysau hwnnw i gyd heb neb i'w rannu.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae mwy a mwy o waith papur ynghlwm wrth amaethyddiaeth, mae rheolau yn newid yn gyson, mae gofidiau wedi cynyddu ac mewn nifer o achosion mae'r help a'r gwmniaeth oedd yn nodweddiadol o gymunedau amaethyddol wedi lleihau yn aruthrol.

Pwrrpas Tir Dewi yw i fod yna i gynnal a chefnogi ffermwyr a'u teuluoedd drwy unrhyw adeg anodd sy'n dod ar eu traws, gallwn gynnig clust i wrando, gallwn helpu gyda phethau ymarferol fel gwaith papur neu alwadau ffôn, neu gallwn eich cyfeirio at fudiadau sy'n arbenigo yn y problem penodol sy'n eich poeni chi.

Mae gennym tua 60 o wirfoddolwyr dros Gymru, ac mae pob un ohonynt yn deall ffermwyr, ac yn cydymdeimlo gyda'r problemau sy'n eu gwynebu. Mae pob un ohonynt wir eisiau helpu i leddfu ychydig ar y gofid a'r pwysau mae gymaint o ffermwyr yn ei deimlo, a hynny bob amser yn hollol gyfrinachol wrth gwrs.

Nid oes y fath beth ag "annual", "sick" neu "compassionate leave" i'w gael i ffermwyr, mae'n rhaid iddyn nhw gario ymlaen. ***Ond oes rhaid? Neu gallech chi ofyn am help, help a allai esmwytho peth o'r boen, y baich neu'r pwysau, gan adael i chi gael amser i feddwl, blaenoriaethu a theimlo eich bod yn cael eich cynnal?***

Y mae tîm o wirfoddolwyr caredig, llawn empathi yn Tir Dewi yn barod i wrando a'ch cefnogi beth bynnag a rannwch. Felly galwch **0800 121 47 22** am gymorth cyfrinachol am ddim.



**ARBENNIGWR
LAND ROVER
ANNIBYNNOL**

MOT

♦CEIR♦BEICIAU MODUR♦FANIAU♦4x4

Offer Diagnostig Diweddaraf



ARBENIGWYR LAND ROVER YN SAN CLÊR, SIR GÂR
Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.
Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

♦RHANNAU SBAR ♦GWASANAETH ♦TEIARS
♦BATRIS♦WELDIO ♦TRACIO PEDAIR OLWYN
♦TYMHERU AER

Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313
Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP



George's
o San Clêr

Pysgod a Sglodion traddodiadol rhagorol



**Pysgod • Sglodion • Risols
Selsig • Cyw lân • Diodydd**

**Ar agor Llun i Sadwrn
11.30 - 21.30**
**Croeso i chi archebu
ar y ffôn
01994 231482**
**Heol yr Orsaf,
San Clêr**



Catrin Wyn Davies
o Gaerfyrddin
Codi Arian at elusen Therapies Unite



Penderfynais gerdded 870 milltir o amgylch llwybr arfordir Cymru i godi arian at elusen Therapies Unite. Rwy'n gwirfoddoli i'r elusen fel ffisiotherapydd sy'n gweithio gyda phobl a phlant gydag anableddau gwahanol mewn llefydd anghysbell yn Meccico

Roedd digon o gerdded i fynd ac i lawr yng Ngheredigion gyda'r llwybr yn glynu wrth y clogwyni - oedd yn anodd, ond roedd yn braf cael stop mewn caffis ym mhentrefi Llangrannog, Mwnt ac Aberporth. Fel un o Gaerfyrddin, rwy'n gyfarwydd â'r ardal yma a wnes i wir fwynhau cwmni ffrindiau a theulu a wnaeth ymuno - a hyd yn oed gweld dolffiniaid yn harbwr Cei Newydd. Roeddwn i'n cerdded gyda bag 15kg ar fy nghefn - yn cynnwys pabell, sach gysgu, stôf a bwyd. Roedd angen bod yn gwbl gynaliadwy.

Nes i ddechrau yng Nghaer a gorffen yng Nghas Gwent 10 wythnos yn ddiweddarach. Roedd fy nghoesau yn drwm, fy nghorff wedi blino'n lân, a fy nhraed yn brifo - ond ro'n i mor gyffrous ac yn ddiolchgar i bawb wnaeth fy nghefnogi ar hyd y ffordd. Os ydych chi eisiau fy noddi, mae gen i dudalen 'just giving' catrin-davies23 neu ebostiwrch catrinwyndavies@gmail.com. Diolch!

Cyngor Cymuned Llanwinio
Yn eisiau
Clerc
Am fanylion pellach cysylltwch â
Ross Gallie ar:
clerk@llanwiniocommunitycouncil.com

CARTREF ODDI CARTREF



**Y GARREG LWYD
HEOL SALEM
SANCLER**

**FFONIWCH
SHEILA BEYNON
Y RHEOLWRAIG
01994 230855**




Gwe Ffrindie!



CYSTADLEUAETH Cyfle i un darlennydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Mae gan Mam-gu Iet-wen lawer iawn o ffrindiau bach. Fedrwch chi ddyfalu pa fath o greadur yw pob ffrind?



Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 8/10/21

Enillydd Cystadleuaeth Mis Gorffennaf: Tomos Rees, Maes Pedr, Caerfyrddin.

Ateb: Gwelodd Mam-gu Iet-wen 9 cwningen, 6 cheffyl, 7 mochyn, 7 buwch, 6 chi a 6 dafad yn ei breuddwyd.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer. www.wenfro.cymru

© y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2021



Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi yn y rhifyn nesaf.

PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd hapus iawn i'r ddwy chwaer, Gwenllian a Betsan Dent, Glasnant, Llanboidy. Roedd Betsan yn 6 oed ar Fedi 22ain a bydd Gwenllian yn 9 oed ar y 4ydd o Dachwedd. Cariad mawr wrth Dadi a Mami, Datcu a Mamgu Maencoch a Nana Clunderwen. xxx



Penblwydd Hapus iawn i'r brawd a chwaer, Rhydian ac Abbie Jenkins, Llwynocrwn. Roedd Abbie yn 2 oed ar Awst 29ain a bydd Rhydian yn 4 oed ar y 28ain o Fedi. Cariad mawr wrth Dadi a Mani, Datcu a Mamgu Maencoch a Bampi a Non Llwynocrwn



Penblwydd Hapus i Alaw Fflur Evans, Ysgubor Uchaf, Pedair Heol a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 6 oed ar Hydref 8fed. Cariad mawr wrth Dadi a Mami, Ffion a Cari, Datcu a Mamgu Cwmfelin a Mams a Dats, Tyn y Coed a'r teulu i gyd.



Pen-blwydd hapus iawn i Griff sy'n dathlu ei ben-blwydd yn 5 oed ar Fedi 21ain. Cariad a swsus mawr wrth Dad, Mam, Efan, Mamgu Llinos, Geraint, Hen Dadcu Roy a'r teulu oll. Xxx



Penblwydd hapus iawn i Gwenno Jones, Blaenau a fydd yn 5 oed ar y 19eg o fis Medi. Cariad mawr Dad, Mami, Sara, Tadcu a Mamgu Bancyfelin a'r teulu i gyd.

Annwyl Ddarllenwyr,
Hoffwn dynnu eich sylw i Gylchgrawn Newydd Cyw. Cyw a'i ffrindiau yw sêr y cylchgrawn lliwgar hwn, ac ynddo ceir 48 tudalen yn llawn dop o weithgareddau hwyliog (ac addysgol) ar gyfer plant ifanc hyd at 6 oed.

Bydd rhifyn yr Hydref ar werth o 10 Medi ymlaen. Pris y cylchgrawn yw £3.99 ac mae'n ymddangos yn dymhorol. Gellir tanysgrifio i dderbyn rhifyn bob tymor am flwyddyn am £15 (post am ddim) yn syth i'r cartref, sydd hefyd yn ei wneud yn anrheg delfrydol i blentyn bach!

Gellir prynu copi o wefan Peniarth, <http://pth.cymru/siop-cyw-cylchgrawn> neu o'ch siop lyfrau lleol. Mae modd trefnu tanysgrifiad ar y wefan honno hefyd.

Hwyl ar y darllen!

S4C

